Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cyfrifiad Census 2021

# Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) Rhaglen Trawsnewid

## Cyfrifiad 2021

## Asesiad o ofynion cychwynnol defnyddwyr o ran cynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Mai 2016

# Tabl cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 2

2 Gwerthuso ymatebion ..... 4

- 2.1 Meini prawf gofynion defnyddwyr ..... 5
- 2.2 Ystyriaethau eraill - asesiad effaith SYG ..... 6
- 2.3 Gofynion gweithredol ..... 8
- 2.4 Cyfuno'r asesiad ..... 10

3 Y farn ddiweddaraf ..... 12

- 3.1 Trosolwg ..... 12
- 3.2 Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref ..... 14
- 3.3 Tai ..... 15
- 3.4 Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol ..... 16
- 3.5 Gofalwyr ..... 17
- 3.6 Iechyd ..... 18
- 3.7 Addysg ..... 18
- 3.8 Mudo a dinasyddiaeth ..... 19
- 3.9 Crefydd ..... 20
- 3.10 Iaith ..... 20
- 3.11 Y farchnad lafur ..... 21
- 3.12 Incwm ..... 22
- 3.13 Teithio ..... 23
- 3.14 Hunaniaeth rywiol ..... 23
- 3.15 Pwnc newydd: Hunaniaeth o ran rhywedd ..... 24
- 3.16 Pwnc newydd: Cymuned a chyn-filwyr y lluoedd arfog ..... 25
- 3.17 Pwnc newydd: Achyddiaeth ..... 25
- 3.18 Seiliau allbwn a chyfrifo ..... 26

4 Camau nesaf ..... 27

Atodiad A: Canllawiau ar gyfer sgorio pynciau yn erbyn meini prawf gofynion defnyddwyr ..... 30

Atodiad B: Canlyniadau gwerthuso ..... 32

# 1. Cyflwyniad

Gwnaethom wahodd barn ar 'Cyfrifiad 2021 - Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr[1]' rhwng 4 Mehefin a 27 Awst 2015, gyda'r nod o hyrwyddo trafodaeth ac annog proses o ddatblygu achosion cryf am bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Roeddem yn canolbwyntio ar y wybodaeth sydd ei hangen o Gyfrifiad 2021, nid y cwestiynau manwl y dylid eu gofyn ar yr holiadur.

Cafodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) 1,095 o ymatebion i'r ymgynghoriad; roedd 279 o'r rhain gan sefydliadau ac roedd 816 gan unigolion. Nodwyd fod 592 o'r holl ymatebion a gafwyd wedi'u cyflwyno gan achyddion. Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr ymatebion sefydliadol fesul sector.

### Tabl 1 Nifer yr ymatebion sefydliadol fesul sector

| Sector sefydliadol | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|
| Adran o'r llywodraeth/corff cyhoeddus | 32 |
| Awdurdod lleol | 117 |
| Sefydliad iechyd | 6 |
| Tai | 6 |
| Academaidd/ymchwil | 18 |
| Elusennol a gwirfoddol | 56 |
| Masnachol | 10 |
| Achydd/hanesydd teulu | 12 |
| Arall | 22 |
| Cyfanswm | 279 |

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y SYG 'Barn gychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr Dywedoch Chi: Crynodeb o'r canlyniadau[2]' a ddarparodd drosolwg o'r ymatebion a gafwyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymateb llawn SYG i'r ymgynghoriad gan ddiweddaru'r farn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae Adran 2 yn darparu trosolwg o'r broses werthuso a ddefnyddiwyd i asesu'r ymatebion, ac yn crynhoi canlyniadau'r gwerthusiad. Wedyn, mae Adran 3 yn nodi barn ddiweddaraf SYG ar y pynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021, gan gynnwys crynodeb o'r cynigion ar gyfer pynciau newydd a ble y ceir trafodaeth amdanynt yn yr adroddiad hwn. Mae Adran 4 yn darparu mwy o wybodaeth am y canlyniad a'r camau nesaf ar gyfer pob pwnc a throsolwg o'r cynlluniau arfaethedig.

Mae'r camau nesaf yn fras yn nodi'r cynlluniau ar gyfer troi'r anghenion gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn gwestiynau arfaethedig ar gyfer Cyfrifiad 2021, a sut y defnyddir y gwerthusiad i lywio ein rhaglen brofi.

[1] https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations

[2] https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales

Yn y cyflwyniad i'r ddogfen ymgynghori, nodwyd y canlynol gennym:

> *"credwn fod yr hyd cyffredinol o tua 43 o gwestiynau fesul unigolyn yn agos at y terfyn o ran bod yn faich derbyniol i'r cyhoedd.  Felly, nid ydym yn disgwyl ehangu'r baich hwnnw ar yr ymatebydd.  Efallai y bydd y broses o gyflwyno unrhyw bynciau newydd yn golygu y bydd angen dileu pynciau sy'n bodoli eisoes.  Caiff newidiadau eu hystyried er mwyn mynd i'r afael â'r canlynol:*
>
> - lle na wnaeth cwestiynau weithio'n dda yn 2011, yn enwedig lle nad oeddent yn bodloni gofynion defnyddwyr o ran allbynnau
> - gofynion polisi newydd neu ofynion polisi sy'n dod i'r amlwg na ellir mynd i'r afael â hwy drwy ddefnyddio arolygon neu ddata gweinyddol
> - newidiadau mewn canllawiau rhyngwladol (ee newidiadau sy'n ymwneud â phwnc y farchnad lafur) ac mewn deddfwriaeth"

Caiff yr adroddiad hwn ei ategu gan gyfres o adroddiadau sy'n darparu gwybodaeth gefndir, yn crynhoi angen defnyddwyr ac yn cyflwyno'r gwerthusiad, y farn ddiweddaraf a'r camau nesaf ar gyfer pob pwnc.

Fel gyda chyfrifiadau blaenorol, caiff cyfrifiadau ar wahân eu cynnal yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd y tair swyddfa cyfrifiad yn cydweithio er mwyn datblygu set o gwestiynau a fydd, lle y bo'n bosibl, yn darparu allbynnau wedi'u cysoni ledled y DU.

Mae ymgynghoriadau ar y cynnwys ar gyfer Cyfrifiadau 2021 yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban bellach wedi dod i ben. Ar 8 Mawrth 2016, cyhoeddodd Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) yr ymatebion i'w hymgynghoriad ac mae'n bwriadu cyhoeddi ymateb llawn i'r ymgynghoriad ar gyfer Cyfrifiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2016. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yr ymatebion a gafwyd i 'Scotland's Census 2021 Topic Consultation'.  Mae NRS yn parhau i adolygu'r ymatebion hynny ac yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2016.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys amrywiaeth werthfawr o adborth am ffynonellau a'r defnydd o ddata gweinyddol, allbynnau'r cyfrifiad a phrosesau lledaenu, rheoli datgeliadau a daearyddiaeth nad ydynt yn rhan o gwmpas yr adroddiad hwn.   Byddwn yn defnyddio'r ymatebion hyn i lywio'r broses o ddatblygu agweddau perthnasol ar y rhaglen.

## 2. Gwerthuso ymatebion

Mae'r cyfrifiad yn ymarfer gorfodol a gynhelir ar sail cyfrifo aelwydydd; mae'n ofynnol i bob ymatebydd gwblhau pob cwestiwn perthnasol ar yr holiadur ac eithrio'r cwestiwn ar grefydd. Fel y cyfryw, mae'n bwysig bod sail glir dros benderfynu p'un a gaiff pynciau eu cynnwys.

Mae sail dros werthuso'r ymgynghoriad ar bynciau 2021 fwy neu lai yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus i werthuso'r ymgynghoriad ar bynciau 2011. Fodd bynnag, gwnaed rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod y meini prawf gwerthuso yn gryfach, yn fwy tryloyw ac i ystyried y newid i gynnal y cyfrifiad ar-lein yn bennaf. Mae'r meini prawf gwerthuso yn ffurfio tri grŵp, a gwerthuswyd pob pwnc ac is-bwnc yn erbyn y meini prawf o fewn pob un o'r grwpiau, fel y dangosir yn Ffigur 1.

### Ffigur 1 Meini Prawf Gwerthuso

| Gofyniad defnyddwyr | Ystyriaeth arall - effaith ar: | Gofyniad gweithredol |
|---|---|---|
| • Diben<br>• Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach<br>• Ffynonellau amgen<br>• Dadansoddiad amlamrywedd<br>• Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr<br>• Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | • Ansawdd y data<br>• Pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd<br>• Baich ar yr ymatebydd<br>• Pryderon ariannol<br>• Math o holiadur | • Sicrhau'r cwmpas neu seiliau poblogaeth mwyaf<br>• Codio newidynnau deilliedig<br>• Cyfeirio |

Yn y ddogfen 'Cyfrifiad 2021 - Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr[3]', rhoddwyd amlinelliad o sut roeddem yn cynnig y dylid gwerthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd y ddogfen hon y canlynol:

> *"Y meini prawf o ran gofynion defnyddwyr yw'r meini prawf allweddol o hyd. Mae gofynion gweithredol yn atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau, yn enwedig os credir y gall pwnc wella'r cwmpas.*
>
> *Caiff y meini prawf o ran ystyriaethau eu defnyddio'n bennaf ar y cyd â chryfder sgôr gofynion defnyddwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu holiadur y cyfrifiad a chynhyrchu allbynnau data gweinyddol arbrofol. Fodd bynnag, efallai y bydd materion a nodwyd gan ddefnyddio'r meini prawf hynny yn golygu na chaiff pwnc ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 er bod angen defnyddiwr neu angen gweithredol yn hysbys (er enghraifft, os na allwn ddatblygu cwestiwn y gall ymatebwyr ei ateb yn gywir)."*

Fel rhan o'r broses o lunio'r meini prawf gwerthuso terfynol, gofynnwyd am fewnbwn gan Grwpiau Cynghori'r Cyfrifiad yn ystod haf 2015 a chynhwyswyd eu sylwadau yn ein set derfynol, a amlinellir isod.

[3] https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations

## 2.1 Meini prawf gofynion defnyddwyr

Mae'r meini prawf gofynion defnyddwyr yn hollbwysig. Rhaid i bynciau ddiwallu angen cryf a ddiffiniwyd yn glir gan ddefnyddwyr. Mae angen achos cadarn dros gynnwys unrhyw bwnc yng Nghyfrifiad 2021.

Nodir y meini prawf gofynion defnyddwyr, gyda disgrifiad cryno a phwysoliadau cymharol, yn nhabl 2. Mae'r meini prawf, ar y cyfan, yn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd yn 2011 ond fe'u hadolygwyd gan arbenigwyr o fewn SYG. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, diweddarwyd y disgrifiadau a'r pwysoliadau er mwyn adlewyrchu cymdeithas heddiw.

Y prif wahaniaeth, o gymharu â'r meini prawf a ddefnyddiwyd yn ymgynghoriad pynciau Cyfrifiad 2011, yw gostyngiad o ran pwysoliad y meini prawf 'Diben' (y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel 'Cryfder angen defnyddwyr') o gymharu â meini prawf eraill. Ategir hyn gan gynnydd cyfatebol yn y pwysoliadau ar gyfer meini prawf 'Ardaloedd daearyddol fach neu boblogaethau bach', 'Dadansoddiad amlamrywedd' a 'Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol'.

Gwerthuswyd yr ymatebion gan ddefnyddwyr ar bob is-bwnc, gan gynnwys yr is-bynciau newydd arfaethedig a aseswyd fel rhan o'r gwerthusiad, yn erbyn y meini prawf gofynion defnyddwyr hyn. Mae pob maen prawf yn cysylltu'n uniongyrchol â rhan o holiadur yr ymgynghoriad, ond os darparodd defnyddwyr dystiolaeth gadarn mewn rhan arall yn eu hymateb nad oedd yn gydnaws â'r fframwaith a oedd yn cael ei ddefnyddio, ni ddiystyrwyd y dystiolaeth hon. Cynlluniwyd hyn er mwyn helpu ymatebwyr i ddarparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ac i wella tryloywder y dull gweithredu. Nodir y canllawiau sgorio a ddefnyddiwyd yn Atodiad A.

Mae Atodiad B1 yn darparu crynodeb o'r sgoriau anghenion defnyddwyr a neilltuwyd i bob pwnc. Fe'u defnyddiwyd er mwyn diweddaru barn gychwynnol SYG ar gynnwys y pwnc yng Nghyfrifiad 2021.

### Tabl 2 Meini prawf gofynion defnyddwyr

| Meini Prawf | Disgrifiad | Pwysoliad | Uchafswm sgôr | Uchafswm sgôr wedi'i bwysoli |
|---|---|---|---|---|
| Diben | Mae at ba ddiben y defnyddir y data a gesglir yn greiddiol i'r broses werthuso. Mae'r dibenion yn cynnwys dyrannu adnoddau, cynllunio gwasanaethau, gwerthuso polisïau a monitro amrywiaeth, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny.<br>I'r gwrthwyneb, mae'r goblygiadau os na chesglir y data, er enghraifft, costau ariannol uwch neu ansawdd data is wrth gynllunio, hefyd yn bwysig.<br>Yn ogystal, mae gofynion sy'n deillio o ddeddfwriaeth (gan gynnwys deddfwriaeth yr UE) yn atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau. | 3.0 | 10 | 30 |
| Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Mae'n rhaid bod angen gwybodaeth ar gyfer grwpiau bach o'r boblogaeth a/neu ar lefelau daearyddol manwl. Efallai y byddai'n well caffael gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ardaloedd daearyddol eang neu grwpiau mawr o'r boblogaeth o ffynonellau ystadegol eraill. | 2.0 | 10 | 20 |

| Meini Prawf | Disgrifiad | Pwysoliad | Uchafswm sgôr | Uchafswm sgôr wedi'i bwysoli |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid sicrhau y gall unrhyw ddata sy'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol bach gael eu cyfuno i lefelau uwch o ardaloedd daearyddol, gan sicrhau bod allbynnau yn gyson ac y gellir eu cymharu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol. | | | |
| Ffynonellau amgen | Dim ond gwybodaeth na ellir mo'i chasglu mewn unrhyw ffordd arall y bydd Cyfrifiad 2021 yn ceisio'i chasglu. Dylid ystyried a oes gwybodaeth addas ar gael o ffynonellau eraill ai peidio; er enghraifft, cofnodion gweinyddol neu arolygon sampl.<br>Yn ogystal, gan mai bob deng mlynedd y cynhelir y cyfrifiad, dim ond gwybodaeth a fydd yn parhau i fod yn berthnasol am gyfnod sylweddol ar ôl iddi gael ei chasglu y dylai'r cyfrifiad ei chasglu. Os oes angen allbynnau mwy rheolaidd, mae'n bosibl y byddai ffynonellau gwybodaeth eraill yn fwy addas. | 1.5 | 10 | 15 |
| Dadansoddiad amlamrywedd | Un o fanteision allweddol data'r cyfrifiad yw gallu dadansoddi newidynnau penodol yn erbyn ei gilydd. Bydd gofyniad i gynnal dadansoddiad amlamrywedd yn effeithio ar p'un a oes ffynonellau amgen addas yn bodoli, a gall atgyfnerthu'r achos dros gynnwys pynciau yn y cyfrifiad. | 1.5 | 10 | 15 |
| Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Mae cymhariaeth â chyfrifiadau blaenorol yn agwedd bwysig ar y gwaith o ddadansoddi'r cyfrifiad a, lle y bo'n bosibl, bydd holiadur Cyfrifiad 2021 yn casglu'r un wybodaeth â holiadur Cyfrifiad 2011. | 1.0 | 10 | 10 |
| Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Dylai fod modd cymharu'r data a gesglir o'r cyfrifiad ar draws ardal ddaearyddol fawr. Lle y bo'n bosibl, os oes angen ymhlith defnyddwyr, bydd tair Swyddfa Cyfrifiad y DU yn cyhoeddi allbynnau cyfrifiad sy'n gyson ledled y DU. | 1.0 | 10 | 10 |
| | | | **Uchafswm sgôr cyffredinol wedi'i bwysoli** | **100** |

## 2.2 Ystyriaethau eraill - asesiad effaith SYG

Mae nifer o bethau y mae angen eu hystyried wrth gynllunio cynnwys Cyfrifiad 2021. Dyma'r meini prawf ystyriaethau eraill, a restrir yn nhabl 3, a chânt eu defnyddio'n bennaf ar y cyd â'r sgôr gofynion defnyddwyr i lywio'r broses o ddatblygu holiadur y cyfrifiad a chynhyrchu allbynnau ymchwil data gweinyddol. Fodd bynnag, efallai y bydd materion a nodwyd wrth ddatblygu'r

cwestiynau gan ddefnyddio'r meini prawf hyn yn golygu na chaiff pwnc ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 er bod angen defnyddiwr neu angen gweithredol yn hysbys, er enghraifft, os na allwn ddatblygu cwestiwn y gall ymatebwyr ei ateb yn gywir.

Aseswyd pob pwnc a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad yn erbyn y meini prawf ystyriaethau drwy goladu tystiolaeth o Gyfrifiad 2011 a llunio barn o ran categoreiddio. Ar gyfer pynciau newydd a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad, ystyriodd SYG amrywiaeth o ffynonellau er mwyn llunio barn o ran categoreiddio. Ar gyfer is-bynciau newydd a gynigiwyd gan ddefnyddwyr, ni chynhaliodd SYG yr asesiad hwn ac eithrio pan fo'r sgôr angen defnyddiwr yn awgrymu bod angen i ni ystyried sut i ddiwallu'r angen. Lle y caiff gweithgareddau datblygu a phrofi eu rhoi ar waith ar gyfer is-bynciau newydd ac is-bynciau sy'n bodoli eisoes, bydd y gwaith hwn yn bwysig o ran llywio asesiad terfynol.

Nodwyd tri chategori:

- Isel - Aseswyd y byddai cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r is-bwnc hwn yn cael effaith isel. Er enghraifft, lle yr ystyriwyd bod ansawdd y data o Gyfrifiad 2011 yn dda, byddai'r effaith ar yr ystyriaeth ansawdd data yn isel.
- Canolig - Aseswyd y byddai cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r is-bwnc hwn yn cael effaith ganolig. Er enghraifft, lle y cyflwynir sawl 'blwch ticio' i ymatebwyr ddewis o'u plith gyda set o gyfarwyddiadau byr i'w helpu, byddai'r effaith ar yr ystyriaeth baich ar yr ymatebydd yn ganolig.
- Uchel - Aseswyd y byddai cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r is-bwnc hwn yn cael effaith uchel. Er enghraifft, lle na fydd ymatebwyr o bosibl o'r farn bod cwestiynau yn dderbyniol am resymau sy'n ymwneud â phreifatrwydd, byddai'r effaith ar y maen prawf pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd yn uchel.

Mae Atodiad B2 yn darparu'r dosbarthiadau ystyriaethau ar gyfer pob pwnc. Bydd y broses o gategoreiddio ystyriaethau yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu holiadur y cyfrifiad.

### Tabl 3 Ystyriaethau eraill - meini prawf asesiad effaith SYG

| Meini Prawf | Disgrifiad |
|---|---|
| Effaith ar ansawdd data | Dylid disgwyl bod y data a gesglir yng Nghyfrifiad 2021 o ansawdd digonol i sicrhau bod yr allbynnau yn ddefnyddiol. Felly, ni ddylai'r wybodaeth a gesglir geisio gwybodaeth nad yw'n hysbys neu na ellir ei chofio'n gywir.<br>Mae SYG wedi defnyddio gwybodaeth am gyfraddau priodoli o Gyfrifiad 2011 a chyfraddau cytuno yn seiliedig ar Arolwg o Ansawdd Cyfrifiad 2011 i lywio'r asesiad hwn. |
| Effaith ar ba mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd | Ni ddylai'r cyfrifiad ofyn cwestiynau sensitif na chwestiynau a allai fod yn ymwthiol sy'n cael effaith negyddol ar yr ymateb neu a all olygu bod ymatebwyr yn rhoi atebion sy'n dderbyniol yn gymdeithasol yn hytrach nag atebion cywir. Ni ddylai holi am farn nac agweddau unigolion ychwaith.<br>Caiff y cyfrifiad ei gynnal at ddibenion ystadegol hefyd. Ni ddylai gasglu data a fyddai'n hyrwyddo grwpiau gwleidyddol neu sectaraidd yn fwriadol, neu'n noddi achosion penodol. |

| Meini Prawf | Disgrifiad |
|---|---|
| Effaith ar y baich ar yr ymatebydd | Ni ddylai'r cwestiynau a ofynnir am bwnc osod baich gormodol ar ymatebwyr. Gallai'r baich, er enghraifft, ddeillio o gyfarwyddiadau neu esboniadau hirfaith, nifer fawr o gategorïau ymateb, neu nifer fawr o gwestiynau ar un pwnc. |
| Effaith ar bryderon ariannol | Ni ddylai cwestiynau achosi unrhyw broblemau codio mawr, ni ddylai fod angen iddynt gael eu prosesu'n helaeth, ac ni ddylent ychwanegu'n sylweddol at gost gyffredinol y cyfrifiad. |
| Effaith ar y math o holiadur | Mae'r newid i gasglu data ar-lein yn bennaf yn creu cyfleoedd newydd yn ogystal â heriau.<br>Er mai ar-lein fydd y prif fodd o gasglu data, bydd holiadur papur hefyd. Felly, mae angen cynllunio'r cwestiynau er mwyn sicrhau bod ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau ac yn ateb mewn ffordd gyson ar draws pob modd gan olygu y gellir casglu gwybodaeth gyson. |

## 2.3 Gofynion gweithredol

Mae SYG yn defnyddio rhywfaint o'r data a gesglir yn weithredol wrth gynnal y cyfrifiad. Ar gyfer pob is-bwnc, nododd SYG p'un a ddefnyddiwyd unrhyw rai o'r cwestiynau cysylltiedig yn y ffordd hon yng Nghyfrifiad 2011. O ganlyniad, categoreiddiwyd y pwnc fel pwnc o'r pwysigrwydd uchaf, cymedrig neu isaf mewn perthynas â gofynion gweithredol.

Y pwysicaf ohonynt yw sicrhau'r cwmpas mwyaf i Gyfrifiad 2021, gan mai prif nod y cyfrifiad yw darparu amcangyfrif cadarn o'r boblogaeth preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr. Mae defnyddiau gweithredol eraill yn cynnwys codio newidynnau deilliedig, cyfeirio ymatebwyr a dilysu.

Disgrifir yr asesiad o'r broses o gategoreiddio gofynion gweithredol yn fanylach yn nhabl 4.

### Tabl 4 Categoreiddio gofynion gweithredol

| Categori | Defnydd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Uchaf | Sicrhau'r cwmpas neu seiliau poblogaeth mwyaf | Lle y defnyddiwyd data a gasglwyd ar bwnc i sicrhau'r cwmpas mwyaf neu i ddiffinio sail poblogaeth, rhoddwyd pwysigrwydd uchel iddynt.<br>Gall holiadur Cyfrifiad 2021 gynnwys rhai cwestiynau, er enghraifft, sy'n helpu ymatebwyr i nodi pwy ddylai gael ei gynnwys yn yr holiadur neu a gaiff eu defnyddio i lunio gwahanol seiliau allbwn. |
| Cymedrig | Codio newidynnau deilliedig ac addasu ar gyfer diffyg ymateb | Disgwylir y bydd rhai allbynnau allweddol yn seiliedig ar newidynnau deilliedig. Gall pynciau gael eu cynnwys yn holiadur Cyfrifiad 2021 os nodir bod angen ymhlith defnyddwyr am ddata sy'n deillio o newidyn hyd yn oed os nad oes angen ymhlith defnyddwyr am allbynnau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc, er enghraifft, mae angen statws |

| Categori | Defnydd | Disgrifiad |
|---|---|---|
| | | goruchwylio yn bennaf er mwyn cyfrifo'r Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC).<br>Yn ogystal, defnyddir rhai pynciau craidd er mwyn gallu asesu'n well ac addasu'n well ar gyfer nodweddion y rhai na fyddant yn ymateb. Er enghraifft, defnyddir gweithgarwch economaidd ymatebwyr yr wythnos diwethaf er mwyn helpu i amcangyfrif nodweddion gweithgarwch economaidd y rhai na wnaethant ymateb. |
| Isaf | Cyfeirio a dilysu | Mewn cyfrifiad ar-lein, gall ymatebwyr gael eu cyfeirio'n awtomatig o amgylch cwestiynau nad oes angen iddynt eu hateb. Fodd bynnag, bydd fersiwn papur o'r ffurflen o hyd ac mae'n debygol y bydd angen rhai cwestiynau cyfeirio ar y fersiwn hon.<br>Defnyddiwyd rhai cwestiynau hefyd at ddibenion dilysu, ee traws-wirio rhwng oedran a statws priodasol. |


Aseswyd pob pwnc yn erbyn y meini prawf gofynion gweithredol drwy goladu tystiolaeth am ddefnydd gweithredol mewn perthynas â'r pwnc yng Nghyfrifiad 2011. Wedyn, gwerthuswyd y dystiolaeth hon gan arbenigwyr SYG ac fe'i defnyddiwyd i neilltuo pob un i gategori yn seiliedig ar y defnydd gweithredol â'r sgôr uchaf. Nododd yr adolygiad hwn gan arbenigwyr fod defnyddio data i gyfrifo seiliau allbwn yn bwysig iawn ac nad oedd wedi cael ei ystyried yn y deunydd a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Felly, diweddarwyd y broses o gategoreiddio gofynion gweithredol ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar 4 Mehefin 2015.

Mae Atodiad B3 yn darparu'r dosbarthiad gofynion gweithredol ar gyfer pob pwnc. Mae'r categoreiddiad gofynion gweithredol uchaf yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff pwnc ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

## 2.4 Cyfuno'r asesiad

Er mwyn llunio'r farn ddiweddaraf o ran p'un a ddylid cynnwys pob un o'r pynciau sy'n bodoli eisoes, a phynciau newydd yng Nghyfrifiad 2021, mae SYG wedi defnyddio'r dull gweithredu a nodir yn ffigur 2 isod.

**Ffigur 2 Cyfuno'r meini prawf er mwyn llunio'r farn ddiweddaraf am bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021**



Y meini prawf gofynion defnyddwyr fu'r prif feini prawf o ran penderfynu p'un a ddylid parhau i gynnwys pynciau sy'n bodoli eisoes, neu p'un a ddylid ystyried pynciau newydd i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Dosberthir pynciau newydd arfaethedig gydag angen defnyddwyr uchel (sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli o dros 80) neu gymedrig (sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli rhwng 63.5 ac 80) fel "ystyried sut/p'un a ddylid diwallu'r angen" gan nad ydynt eto, yn wahanol i gwestiynau a gynhwyswyd yng Nghyfrifiad 2011, wedi bod yn destun profion er mwyn sicrhau y gellir casglu gwybodaeth o ansawdd da ar y pwnc yng nghyd-destun y cyfrifiad.

Fodd bynnag, pan fydd angen defnyddwyr isel (sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli o 63 neu is) ar gyfer pwnc sy'n bodoli eisoes, ond y dangoswyd ei fod yn cynnwys gofyniad gweithredol uchel, caiff y pwnc hefyd ei gadw am ei gyfraniad wrth weithredu cyfrifiad o ansawdd uchel yn llwyddiannus.

Defnyddiwyd asesiad SYG o'r meini prawf effaith ar y cyd â'r meini prawf gofynion defnyddwyr i ddechrau nodi a blaenoriaethu'r gwaith sydd ei angen er mwyn ymdrin â meysydd ag effaith uchel neu ganolig yn seiliedig ar yr asesiad o'r cwestiwn hwnnw yn 2011, ac er mwyn datblygu cwestiynau newydd.

Aseswyd effaith y baich cyffredinol ar yr ymatebydd o fewn y set hon o feini prawf. Mae cyfyngiadau dylunio a diwyg ar gyfer y cyfrifiad ar-lein, gan gynnwys ystyriaethau o ran diwyg cwestiynau ar ddyfeisiau symudol o wahanol feintiau. Er mai ar-lein y cynhelir Cyfrifiad 2021 yn bennaf, bydd hefyd angen ystyried y cyfyngiadau dylunio a gofod sy'n gysylltiedig â'r angen i gynhyrchu fersiwn papur o holiadur Cyfrifiad 2021. Felly, er mwyn cynnwys unrhyw gwestiynau newydd, bydd angen hepgor rhai o'r cwestiynau o'r cyfrifiad blaenorol ar gyfer 2021. Yn unol â'r farn ddiweddaraf gyfredol, caiff dau gwestiwn eu hepgor (nifer yr ystafelloedd a'r flwyddyn olaf a weithiwyd) ac mae dau yn cael eu hystyried i'w cynnwys (gwirfoddoli a hunaniaeth rywiol). Fodd bynnag, hyd nes y caiff y cwestiynau eu datblygu ymhellach ac y caiff y broses o fireinio cwestiynau/cyfarwyddiadau eraill ei chwblhau, mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau o ran gofod o hyd y bydd angen eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad terfynol ar gynnwys yr holiadur. Rhagwelir y bydd angen dod o hyd i ofod er mwyn cynnwys y ddau gwestiwn ychwanegol drwy symleiddio a byrhau'r cwestiwn ar gymwysterau.

# 3. Y farn ddiweddaraf

## 3.1 Trosolwg

Mae ffigur 3. yn crynhoi'r canlyniad ar gyfer pob un o'r pynciau yn seiliedig ar y dull gweithredu a ddefnyddiwyd i gyfuno'r gwerthusiad a gyflwynwyd yn adran 2.4.

Yn gryno, mae SYG yn cynnig y canlynol:

- dylid casglu gwybodaeth am 28 o is-bynciau (y mae un ohonynt yng Nghymru yn unig)
- dylid ystyried sut/p'un a ddylid diwallu'r angen ar gyfer 5 o is-bynciau
- ni ddylid casglu 11 o is-bynciau
- dylid cyfrifo un is-bwnc a
- dylid archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer un is-bwnc.

Mae pedwar is-bwnc lle mae'r canlyniad yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd yn seiliedig ar y tabl. Mae'r pynciau a'r is-bynciau fel a ganlyn:

- Tai - Nifer yr ystafelloedd
- NS-SEC
- Y farchnad lafur - Statws goruchwylio
- Incwm

Nodir y rhesymeg dros ddefnyddio dull gweithredu gwahanol ar gyfer pob un o'r is-bynciau hyn yn yr adran pwnc berthnasol isod, a darperir rhagor o fanylion o fewn yr adroddiad pwnc perthnasol.

## Ffigur 3 Trosolwg o'r farn ddiweddaraf ar gyfer pob pwnc

| | Gofyniad defnyddwyr uchel neu ganolig (63.5 - 100) | Gofyniad defnyddwyr isel (0 - 63) |
|---|---|---|
| **Gofyniad gweithredol uchaf** | Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol (93) | Mudo rhyngwladol byrdymor (63) |
| | Oedran (92.5) | |
| | Rhyw (92.5) | |
| | Grŵp ethnig (90.5) | |
| | Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) (82) | |
| | Math o lety a llety hunangynhwysol (82) | |
| **Gofyniad gweithredol cymedrig neu isel** | Mudo rhyngwladol hirdymor (91.5) | 4 Blwyddyn olaf a weithiwyd (55.5) |
| | Problem iechyd neu anabledd hirdymor (87.5) | 3 Statws goruchwylio (24) |
| | Gweithgarwch economaidd ac oriau a weithiwyd (84.5) | |
| | Medrusrwydd iaith Saesneg (83) | |
| | Prif ieithoedd a ddefnyddir (83) | |
| | Iechyd cyffredinol (82.5) | |
| | Dull o deithio i'r gweithle (82.5) | |
| | 1 NS-SEC (81.5) | |
| | Cyfeiriad y gweithle (81.5) | |
| | Y gofal di-dâl a ddarperir (81) | |
| | Crefydd (80) | |
| | Mudo mewnol (79.5) | |
| | Diwydiant (79) | |
| | 2 Cymraeg (78.5) | |
| | Nifer y ceir neu'r faniau (77.5) | |
| | Galwedigaeth (77) | |
| | Nifer yr ystafelloedd gwely (76.5) | |
| | Cymwysterau a ddelir (76.5) | |
| | Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol (76) | |
| | Nifer yr ystafelloedd (73) | |
| | Math o wres canolog (69.5) | |
| | Dinasyddiaeth (68.5) | |
| | Hunaniaeth genedlaethol (65.5) | |

*(Yn parhau isod)*

| | Gofyniad defnyddwyr uchel neu ganolig (63.5 - 100) | Gofyniad defnyddwyr isel (0 - 63) |
|---|---|---|
| **Dim gofyniad gweithredol am nas chasglwyd yn flaenorol fel rhan o'r cyfrifiad** | Hunaniaeth rywiol (72) | 4 Lluoedd arfog (62) |
| | Hunaniaeth o ran rhywedd (66.5) | Rheswm dros fudo (61) |
| | 4 Incwm (64.5) | Cyfeiriad y man astudio (59) |
| | Gwirfoddoli (63.5) | Iechyd meddwl (55) |
| | | Cyflyrau iechyd (52) |
| | | Technoleg (50.5) |
| | | Perchenogaeth anifeiliaid anwes (50.5) |
| | | Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd (50.5) |
| | | Man geni (17) |
| | | Enw cyn priodi/enw blaenorol (12) |

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| | Casglu |
| 1 | Casglu - Cyfrifo o newidynnau eraill y Cyfrifiad |
| 2 | Casglu - Yng Nghymru yn unig |
| | Ystyried p'un a ddylid/sut i ddiwallu'r angen |
| 3 | Ystyried p'un a ddylid/sut i ddiwallu'r angen - defnydd NS-SEC yn unig |
| | Peidio â chasglu |
| 4 | Peidio â chasglu - Archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol |

## 3.2 Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Oedran | Casglu | Casglu |
| Rhyw | Casglu | Casglu |
| Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol | Casglu | Casglu |
| Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol | Casglu | Casglu |

Mae oedran a rhyw yn newidynnau demograffig craidd, sy'n hollbwysig ac a ddefnyddir mewn sawl ffordd fel rhan o'r cyfrifiad. Maent yn llywio rhagamcanion o'r boblogaeth, sy'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, cynllunio a dyrannu adnoddau ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae'r ddau newidyn yn hanfodol ar gyfer gwaith dadansoddi amlamrywedd ar gyfer y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr ac maent hefyd yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddir oedran a rhyw at ddibenion gweithredol yn ystod y broses addasu cwmpas er mwyn sicrhau cywirdeb yr amcangyfrifon terfynol o'r boblogaeth. Defnyddir y data hyn yn y ffordd hon unwaith eto yn 2021.

Defnyddir statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys gan lywodraeth ganolog i fonitro effaith polisïau'r llywodraeth a'r gwasanaethau a ddarperir. Mae priodas a phartneriaeth sifil hefyd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cyflwynwyd Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ers Cyfrifiad 2011. Caiff y categorïau ymateb a dyluniad y cwestiwn ar gyfer statws priodasol eu hadolygu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Mae'r wybodaeth am gydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol sy'n deillio o'r matrics cydberthnasau yn hanfodol er mwyn proffilio'r boblogaeth, cynllunio a dyrannu adnoddau. Mae'r pynciau hyn yn llywio rhagamcanion o gartrefi a ddefnyddir at ddibenion cynllunio a dyrannu adnoddau. Mae'r matrics cydberthnasau a'r cyfarwyddiadau yn gymhleth. Yn 2011, gwnaed ymdrech sylweddol i sicrhau y gellid cwblhau'r matrics ar-lein, a bu'r ymdrech hon yn llwyddiannus.

## 3.3 Tai

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Math o lety a llety hunangynhwysol | Casglu | Casglu |
| Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) | Casglu | Casglu |
| Nifer yr ystafelloedd | Mae angen rhagor o wybodaeth | Ystyried sut/p'un a ddylid diwallu'r angen |
| Nifer yr ystafelloedd gwely | Casglu | Casglu |
| Math o wres canolog | Mae angen rhagor o wybodaeth | Casglu |
| Nifer y ceir neu'r faniau | Mae angen rhagor o wybodaeth | Casglu |
| Technoleg | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |
| Perchenogaeth anifeiliaid anwes | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |

Mae angen defnyddwyr clir am ddata ar is-bynciau tai gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac ar draws sectorau eraill.

Mae gwybodaeth am y math o lety a llety hunangynhwysol, deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) oll yn fewnbynnau craidd ar gyfer gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau mewn perthynas â gwaith cynllunio i ddiwallu anghenion tai yn y dyfodol. Defnyddir math o lety a llety hunangynhwysol hefyd fel mewnbynnau i ystadegau tai a gynhyrchir yn amlach, sy'n sail i'r gwaith o ddyrannu adnoddau gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Yn weithredol, defnyddir y data ar gyfer sicrhau'r cwmpas mwyaf, a bydd y defnydd hwn yn parhau yn 2021.

Defnyddir gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd a nifer yr ystafelloedd gwely ar draws amrywiaeth o sectorau er mwyn deall gorlenwi, ac er mwyn llywio penderfyniadau a wneir o ran asesiadau anghenion ar gyfer strategaethau tai. Defnyddiwyd nifer yr ystafelloedd hefyd wrth gyfrifo Mynegai Carstairs a Mynegeion Amddifadedd Lluosog a ddefnyddir i ddeall anghydraddoldeb ac i fynd i'r afael ag ef. Yn ogystal, fel rhan o Reoliad Senedd a Chyngor Ewrop ar Gyfrifiadau Poblogaeth a

Thai (2008) yr Undeb Ewropeaidd (Rheoliad (CE) Rhif 763/2008), mae'n ofynnol i SYG ddarparu ystadegau yn deillio o'r cyfrifiad, neu ddata cyfatebol, ar nifer yr ystafelloedd i Eurostat wedi'u croes-dablu â nifer gyfyngedig o is-bynciau eraill (ee deiliadaeth).

Ystyrir bod nifer yr ystafelloedd gwely yn symlach i ymatebwyr ei ateb, ac mae'r cyfraddau cytuno o Arolwg o Ansawdd Cyfrifiad 2011 yn ategu hyn - 66.5 y cant ar gyfer nifer yr ystafelloedd a 91.4 y cant ar gyfer nifer yr ystafelloedd gwely.

Ym mis Mawrth 2015, cymeradwyodd y Senedd Orchymyn Rhannu Gwybodaeth er mwyn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu gwybodaeth am briodweddau eiddo, gan gynnwys nifer yr ystafelloedd, gydag Awdurdod Ystadegau'r DU. Bydd SYG yn cynnal gwaith ymchwil gan ddefnyddio'r data hyn a fydd yn ystyried y potensial o ran eu defnyddio fel ffynhonnell wybodaeth amgen am nifer yr ystafelloedd, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a bodloni gofynion ystadegol Ewropeaidd.

Yng nghyd-destun lleihau'r baich ar yr ymatebydd, nid yw SYG o'r farn ei bod yn briodol parhau i ofyn dau gwestiwn wedi'u cynllunio i ddiwallu un angen o ran gwybodaeth onid oes gofyniad clir i wneud hyn. Fel y cyfryw, mae SYG yn cynnig y dylid parhau i gasglu gwybodaeth am nifer yr ystafelloedd gwely, a bydd yn ystyried sut a ph'un a ddylid diwallu'r angen am wybodaeth am nifer yr ystafelloedd.

Defnyddir gwybodaeth am y math o wres canolog at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys helpu i fonitro polisïau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, a dyrannu adnoddau i gefnogi ymyriadau cysylltiedig. Bydd SYG yn cynnal gwaith pellach gyda rhanddeiliaid i ystyried y gofynion ar gyfer y wybodaeth hon, gan gynnwys yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC) a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y cwestiwn yn diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn.

Defnyddiwyd gwybodaeth am nifer y ceir neu'r faniau ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a sectorau eraill i helpu i fodelu trafnidiaeth, cynllunio trafnidiaeth a dyrannu adnoddau cysylltiedig. Felly'r farn ddiweddaraf yw y dylid casglu'r wybodaeth hon yng Nghyfrifiad 2021.

Gofynnodd defnyddwyr p'un a ellid casglu gwybodaeth ychwanegol yng Nghyfrifiad 2021 am amrywiaeth o bynciau technolegol, gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd, cynhwysiant ac allgáu digidol a defnydd o ffonau symudol. Aseswyd y rhain yn erbyn y meini prawf cyfun ac nid oedd angen defnyddwyr yn ddigonol i roi blaenoriaeth iddynt dros bynciau eraill. Yn ogystal, maent yn newid yn gyflym ac nid yw'r wybodaeth yn gyfredol am gyfnod hir.

Gofynnodd defnyddwyr hefyd p'un a ellid casglu gwybodaeth ychwanegol yng Nghyfrifiad 2021 am berchenogaeth anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, nid oedd angen defnyddwyr yn ddigonol i roi blaenoriaeth i'r pwnc hwn dros bynciau eraill.

## 3.4 Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Grŵp ethnig | Casglu | Casglu |
| Hunaniaeth genedlaethol | Casglu | Casglu |

Defnyddir gwybodaeth am grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddwyr data o amrywiaeth o sectorau. Cynlluniwyd y cwestiynau am y pynciau hyn i'w gofyn gyda'i gilydd er mwyn i ymatebwyr allu nodi eu bod yn Gymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig, ni waeth beth fo'u grŵp ethnig.

Mae gwybodaeth am grŵp ethnig yn llywio penderfyniadau o ran dyrannu adnoddau a chynllunio gwasanaethau ac yn cyfrannu at allu sefydliad i fodloni rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd gwybodaeth am grŵp ethnig hefyd i addasu ar gyfer diffyg ymateb yn 2011, a defnyddir y data hynny yn y ffordd hon unwaith eto yn 2021.

Mae gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol yn ategu gwybodaeth am grŵp ethnig, a gyda'i gilydd, fe'u defnyddir i feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o hunaniaeth ddiwylliannol sy'n llywio gwaith cynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau sy'n anelu at ddiwallu anghenion cymunedol a chefnogi cydlyniant cymdeithasol.

Ers ei gynnwys yng Nghyfrifiad 1991, mae SYG wedi datblygu'r cwestiwn ar grŵp ethnig mewn ymateb i anghenion esblygol defnyddwyr. Er enghraifft, cynhwyswyd blwch ticio 'Gwyddelig' o 2001 ac ychwanegwyd 'Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig' ac 'Arab' yn 2011. Mae SYG wedi cael ceisiadau i gynnwys blychau ticio ychwanegol yng Nghyfrifiad 2021.

Defnyddir y cwestiwn am grŵp ethnig yn y cyfrifiad mewn amrywiaeth o systemau casglu data (ee y Cyfrifiad Ysgolion) er mwyn gallu cynnal asesiadau cymharol o broffiliau defnyddwyr gwasanaethau â phatrymau cenedlaethol a lleol. Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad wrthym am y sgîl-effeithiau a'r costau y gall newidiadau i'r blychau ticio yn y cyfrifiad eu cael mewn mannau eraill. Gwnaethant fynegi awydd am gyn lleied o newid â phosibl, yn ogystal ag angen am gysondeb er mwyn gallu cynnal dadansoddiadau cymaradwy o un cyfrifiad i'r un nesaf.

Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol. Bydd SYG yn ystyried p'un a oes digon o angen am gategorïau ymateb ychwanegol yn y cwestiwn grŵp ethnig. Bydd hyn yn ystyried unrhyw gyfleoedd a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gofyn y cwestiynau ar-lein, drwy amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau, yn ogystal â'r angen am gysondeb a chymharedd â'r holiadur papur.

## 3.5 Gofalwyr

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Y gofal di-dâl a ddarperir | Casglu | Casglu |

Defnyddir gwybodaeth am ofal di-dâl gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol i ddyrannu adnoddau i wasanaethau a gynlluniwyd i helpu gofalwyr. Fe'i defnyddiwyd hefyd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyflwyno Deddf Gofal 2014. Cafodd SYG awgrymiadau o ran casglu gwybodaeth ychwanegol am ofalwyr ac am bwy y maent yn gofalu yng Nghyfrifiad 2021. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn ategu penderfyniad i roi blaenoriaeth i'r pwnc hwn dros bynciau eraill.

Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am ofal di-dâl yng Nghyfrifiad 2021.

## 3.6 Iechyd

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Iechyd cyffredinol | Casglu | Casglu |
| Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Mae angen rhagor o wybodaeth | Casglu |
| Iechyd meddwl | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |
| Cyflyrau iechyd ac analluogrwydd | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |
| Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |

Mae gwybodaeth am iechyd cyffredinol a phroblemau iechyd ac anableddau hirdymor yn llywio penderfyniadau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol o ran dyrannu adnoddau. Maent hefyd yn bynciau pwysig wrth asesu anghydraddoldeb, a defnyddir gwybodaeth er mwyn helpu i dargedu ymyriadau wedi'u hanelu at leihau anghydraddoldeb ar lefel genedlaethol a lleol. Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae angen amlwg am y pynciau hyn. Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am iechyd cyffredinol a phroblemau iechyd ac anableddau hirdymor yng Nghyfrifiad 2021 ac ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i'r cwestiynau a ddefnyddir.

Awgrymodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad amrywiaeth o bynciau ychwanegol yr oedd ganddynt anghenion gwybodaeth mewn perthynas â hwy, gan gynnwys iechyd meddwl, cyflyrau iechyd (gan gynnwys cyflyrau penodol megis clefyd y galon a diabetes), analluogrwydd, a ffactorau sy'n effeithio ar iechyd megis ysmygu a gordewdra. Fodd bynnag, nid oedd angen defnyddwyr ar gyfer y pynciau hyn yn ddigonol i roi blaenoriaeth iddynt dros bynciau eraill.

## 3.7 Addysg

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Cymwysterau | Casglu | Casglu |

Defnyddir gwybodaeth am gymwysterau yn helaeth ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau a datblygu polisïau. Yn benodol, fe'i defnyddir i dargedu ymyriadau er mwyn ymdrin â meysydd lle y nodwyd lefelau sgiliau isel.

Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd gan ddefnyddwyr mai'r angen mwyaf dybryd oedd yr angen am wybodaeth am y lefelau uchaf o gymwysterau a dim cymwysterau. Er mwyn cael gwybod am y lefelau uchaf o gymwysterau, dengys tystiolaeth o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) a ffynonellau eraill fod angen cofnodi'r holl gymwysterau academaidd, galwedigaethol, proffesiynol ac eraill a ddelir.

Y farn ddiweddaraf yw y dylid casglu'r data hyn o hyd. Fodd bynnag, ni weithiodd cwestiwn y cyfrifiad am gymwysterau yn dda yn 2001 ac, er gwaethaf ei ddatblygu'n sylweddol, ni weithiodd

yn dda yn 2011 ychwaith. Felly, cynhelir gwaith ychwanegol gyda'r nod o fyrhau a symleiddio'r cwestiwn hwn. Bydd SYG yn cynnwys yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn er mwyn sicrhau y bydd newidiadau i'r cwestiwn yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr. Bydd y canlyniadau yn llywio'r broses o ddatblygu cwestiwn i'w gynnwys yng Nghyfrifiad 2021.

## 3.8 Mudo a dinasyddiaeth

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Mudo rhyngwladol hirdymor | Casglu | Casglu |
| Mudo rhyngwladol byrdymor | Casglu | Casglu |
| Mudo mewnol | Casglu | Casglu |
| Dinasyddiaeth | Casglu | Casglu |
| Rheswm dros fudo | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |

Mae mudo rhyngwladol hirdymor a mudo mewnol yn elfennau pwysig o'r amcangyfrifon a'r rhagamcanion o'r boblogaeth, sy'n sail i waith cynllunio a dyrannu adnoddau ar draws llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Maent hefyd yn cyfrannu at ddeall newidiadau yn y boblogaeth ar lefel leol, gan alluogi awdurdodau lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys addysg, tai a gofal iechyd.

Defnyddiwyd pob cwestiwn a oedd yn casglu gwybodaeth am fudo rhyngwladol hirdymor a byrdymor a mudo mewnol mewn modd gweithredol yn ystod Cyfrifiad 2011 er mwyn sicrhau y cafodd pob unigolyn ei gyfrif naill ai fel preswylydd arferol neu fel mudwr byrdymor. Mae SYG yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth yn y ffordd hon unwaith eto yng Nghyfrifiad 2021.

Mae gwybodaeth am fudo rhyngwladol byrdymor yn ategu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth ar sail preswylwyr arferol, gan roi gwell dealltwriaeth i awdurdodau lleol o'u poblogaeth gyfan a'u gofynion o ran gwasanaethau. Er na wnaed yr achos dros gasglu'r wybodaeth hon ar sail angen defnyddwyr, mae'r cwestiynau yn hanfodol er mwyn gwella ymateb i'r cyfrifiad a sicrhau y caiff pob unigolyn ei gyfrif naill ai fel preswylydd arferol neu fel mudwr byrdymor.

Cyflwynodd SYG gwestiwn am basbortau a ddelir yn 2011 fel cwestiwn amgen ar gyfer dinasyddiaeth. Defnyddir y wybodaeth hon er mwyn helpu i ddatblygu polisi mudo, yn ogystal â monitro effeithiau cenedlaethol a lleol mudo rhyngwladol a llywio gwaith cydlyniant cymunedol. Bydd SYG yn parhau i gasglu'r wybodaeth hon yng Nghyfrifiad 2021.

Cafwyd cais am wybodaeth ychwanegol am y rheswm dros fudo. Fodd bynnag, nid oedd digon o angen defnyddwyr i roi blaenoriaeth i'r pwnc hwn dros bynciau eraill ac nid ydym yn bwriadu casglu'r wybodaeth hon.

## 3.9 Crefydd

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Crefydd | Casglu | Casglu |

Defnyddir gwybodaeth am grefydd gan amrywiaeth o ddefnyddwyr data gan gynnwys llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a sefydliadau crefyddol i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Fel nodwedd warchodedig, mae'n caniatáu i sefydliadau gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos mai ymlyniad crefyddol, fel y'i cofnodir gan gwestiwn Cyfrifiad 2011, yw'r dimensiwn crefydd sydd fwyaf cydnaws â'r diffiniad o grefydd yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Felly, mae SYG yn bwriadu parhau i ofyn am ymlyniad crefyddol yng Nghyfrifiad 2021.

Er y cynigiodd defnyddwyr data y dylid casglu gwybodaeth am gredoau athronyddol hefyd, dangosodd profion a gynhaliwyd cyn Cyfrifiad 2011 bod cynnwys credoau athronyddol fel rhan o'r cwestiwn yn newid y ffordd roedd ymatebwyr yn ystyried crefydd. O ganlyniad, roeddent yn darparu atebion ar gred grefyddol yn hytrach nag ymlyniad crefyddol. Felly ni fwriedir ehangu cwmpas y cwestiwn ar grefydd i gynnwys yr agwedd hon ar y nodwedd warchodedig.

Mae SYG yn bwriadu cadw'r cwestiwn ar grefydd yr un peth â'r cwestiwn yn 2011, a fydd yn sicrhau cysondeb â chanlyniadau Cyfrifiadau 2001 a 2011.

## 3.10 Iaith

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Y Gymraeg | Casglu yng Nghymru | Casglu yng Nghymru |
| Prif ieithoedd a ddefnyddir | Casglu | Casglu |
| Medrusrwydd iaith Saesneg | Casglu lle nad Saesneg (neu Gymraeg yng Nghymru) yw'r brif iaith | Casglu |

Defnyddir gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yn helaeth gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg ac i lywio strategaethau i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg. Atgyfnerthwyd y gofyniad hwn gan gyfrifoldebau cyfreithiol sy'n deillio o ddeddfwriaeth am y Gymraeg, yn arbennig mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015. Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.

Defnyddir gwybodaeth am y prif ieithoedd a ddefnyddir a medrusrwydd iaith Saesneg i gynllunio gwasanaethau, er enghraifft mewn perthynas ag addysg a chyfieithu, ac i dargedu ymyriadau wedi'u hanelu at gynyddu trefniadau integreiddio. Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu'r wybodaeth hon yng Nghyfrifiad 2021.

Bydd SYG yn rhoi ystyriaeth gytbwys i angen defnyddwyr, y baich ar yr ymatebydd a chyfyngiadau gofod wrth adolygu'r gofynion ar gyfer opsiynau ymateb ychwanegol yn y cwestiwn ar y prif ieithoedd a ddefnyddir.

### 3.11 Y farchnad lafur

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Gweithgarwch economaidd | Casglu | Casglu |
| Galwedigaeth | Casglu | Casglu |
| Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) | Casglu | Cyfrifo |
| Diwydiant | Mae angen rhagor o wybodaeth | Casglu |
| Statws goruchwylio | Peidio â chasglu | Ystyried sut/p'un a ddylid diwallu angen NS-SEC |
| Blwyddyn olaf a weithiwyd | Peidio â chasglu | Peidio â chasglu<br>Dylid archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol |
| Gwirfoddoli | Mae angen rhagor o wybodaeth | Ystyried sut/p'un a ddylid diwallu'r angen |

Defnyddir data gweithgarwch economaidd o'r cyfrifiad yn helaeth gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn fesurau pwysig a all ddangos anfantais i grwpiau a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel dimensiwn allweddol o ran perfformiad economaidd lleol, defnyddir gweithgarwch economaidd gan awdurdodau lleol i lunio cynlluniau a strategaethau economaidd, fel sail i symiau mawr o wariant cyhoeddus.

Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am weithgarwch economaidd yng Nghyfrifiad 2021. Os bydd angen newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb â chanllawiau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) a chydag allbynnau'r Arolwg o'r Llafurlu, caiff y cwestiynau eu hadolygu wrth i ganllawiau wedi'u diweddaru gael eu cyhoeddi ac wrth i newidiadau gael eu hasesu.

Mae gwybodaeth am alwedigaeth a diwydiant yn darparu manylion penodol am farchnadoedd llafur lleol. Er enghraifft, gellir defnyddio data am alwedigaethau i nodi meysydd lle nad oes cyfleoedd i ymgymryd â mathau penodol o waith. Gellir defnyddio data am ddiwydiant i nodi lle mae poblogaethau bach yn dueddol o gael eu cyflogi mewn sector penodol. Defnyddir y wybodaeth fel sail i gynlluniau datblygu economaidd lleol, a phrosiectau seilwaith mawr.

Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am alwedigaeth a diwydiant yng Nghyfrifiad 2021. Mewn cyfrifiadau a gynhelir ar bapur yn bennaf, gall fod yn anodd ac yn gostus cofnodi a chodio galwedigaeth a diwydiant. Bydd SYG yn datblygu ac yn profi ymarferoldeb hunangodio'r cwestiynau galwedigaeth a diwydiant yn yr holiadur ar-lein.

Defnyddir NS-SEC gan ymatebwyr ar draws llywodraeth ganolog, llywodraeth leol ac academia fel dangosydd allweddol wrth fesur anghydraddoldeb ar draws amrywiaeth o feysydd polisi, gan gynnwys trefniadau pensiwn, mynediad i addysg uwch ac iechyd y cyhoedd. Roedd cysondeb â chyfrifiadau blaenorol yn bwysig iawn i ddefnyddwyr. Caiff NS-SEC ei gyfrifo o amrywiaeth o is-bynciau eraill. Cynhaliodd SYG ymgynghoriad yn ddiweddar ar y defnydd o NS-SEC a pa ddull cyfrifo sydd fwyaf priodol. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio lefel y manylion NS-SEC a ddarperir o Gyfrifiad 2021.

Statws goruchwylio yw un o'r is-bynciau a ddefnyddir i gyfrifo NS-SEC, ac fe'i defnyddir yn y dull llawn (a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2001) a'r dull gostyngol (a ddefnyddiwyd yn 2011). Bydd SYG yn ystyried sut i ddiwallu'r angen ar gyfer statws goruchwylio wrth gyfrifo NS-SEC.

Defnyddir gwybodaeth am y flwyddyn olaf a weithiwyd gan awdurdodau lleol i broffilio a deall anghenion pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ac eglurodd ymatebwyr academaidd y gall yr is-bwnc hwn helpu i wahaniaethu'n well rhwng mathau o ddiweithdra. Fodd bynnag, nid oedd llawer o dystiolaeth i ategu hyn. Mae'r flwyddyn olaf a weithiwyd hefyd yn golygu y gellir gwahaniaethu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir o fewn NS-SEC. Fodd bynnag, aseswyd y defnyddiau hyn ac nid oes achos digonol dros roi blaenoriaeth iddynt dros bynciau eraill. Bydd SYG yn ystyried p'un a oes ffyrdd amgen o ddarparu'r wybodaeth hon, er enghraifft, drwy ddefnyddio data gweinyddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Ni chasglwyd gwybodaeth am wirfoddoli yn flaenorol fel rhan o'r cyfrifiad, fodd bynnag, mynegodd ymatebwyr fod angen y wybodaeth er mwyn helpu i ddeall y broses o ddarparu gwasanaethau drwy'r trydydd sector ac i gefnogi'r broses honno. Mae SYG yn bwriadu ystyried y ffordd orau o gasglu'r wybodaeth hon. Yn arbennig, bydd SYG yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi'r gofynion manwl ar gyfer yr is-bwnc hwn (ee pobl sy'n gwirfoddoli, nifer yr oriau yn gwirfoddoli) er mwyn llywio'r broses o ddatblygu a phrofi cwestiwn (cwestiynau). Gall casglu'r wybodaeth hon gael effaith andwyol ar yr ymatebion i gwestiynau eraill (ee gofal di-dâl) y bydd angen ei hasesu.

Ar ôl y cam datblygu a phrofi, bydd cyfnod o werthuso ac ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi'r penderfyniad terfynol o ran unrhyw newidiadau i is-bynciau'r farchnad lafur a dosbarthiad economaidd-gymdeithasol.

## 3.12 Incwm

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Incwm | Peidio â chasglu<br>Archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol | Peidio â chasglu<br>Archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol |

Mae tystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y pwnc wedi cadarnhau y byddai gwybodaeth am incwm ar lefel ardal leol yn ddefnyddiol i ddefnyddwyr data'r cyfrifiad. Fodd bynnag, o ystyried y dangosodd profion a gynhaliwyd cyn Cyfrifiadau 2001 a 2011 bod cynnwys cwestiwn am incwm yn cael effaith andwyol ar y gyfradd ymateb gyffredinol, ac argaeledd cymharol data gweinyddol am incwm o gymharu â phynciau eraill sy'n rhan o'r cyfrifiad, y farn ddiweddaraf yw y dylid parhau i archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol.

Wrth gynnal y gwaith ymchwil hwn, bydd SYG yn parhau i ystyried gofynion defnyddwyr ar gyfer mesurau incwm, yn arbennig drwy gymharu beth sy'n bosibl gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol â'r hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canlyniadau cyntaf y gwaith ymchwil hwn fel rhan o allbynnau ymchwil data gweinyddol hydref 2016[4]. Nod yr allbynnau ymchwil incwm hyn yw:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr am gynnydd ym maes data gweinyddol a gofyn am adborth er mwyn gallu gwella dulliau
- cefnogi gwaith gyda chyflenwyr data er mwyn gwella ansawdd data at ddibenion ystadegol.

## 3.13 Teithio

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Dull o deithio i'r gweithle | Casglu | Casglu |
| Cyfeiriad y gweithle | Casglu | Casglu |
| Cyfeiriad y man astudio | Peidio â chasglu | Peidio â chasglu |

Dywedodd ymatebwyr wrthym eu bod yn defnyddio gwybodaeth am y dull o deithio i'r gwaith a chyfeiriad y gweithle er mwyn helpu i gynllunio trafnidiaeth drwy fodelau trafnidiaeth. Caiff ei ddefnyddio'n gyson hefyd i ddatblygu polisïau a monitro, gan gynnwys asesu effaith polisïau tai a thrafnidiaeth blaenorol. Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am y dull o deithio i'r gwaith a chyfeiriad y gweithle.

Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd bod gwybodaeth am gyfeiriad man astudio yn ffynhonnell bosibl er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau trafnidiaeth. Fodd bynnag, mynegwyd angen defnyddwyr yng nghyd-destun dealltwriaeth well o batrymau trafnidiaeth yn fwy cyffredinol. Ynghyd â phwysigrwydd cysondeb â chyfrifiadau blaenorol ar gyfer data teithio i'r gwaith, asesodd SYG nad oedd angen defnyddwyr yn ddigonol i roi blaenoriaeth i deithio i'r man astudio dros bynciau eraill.

## 3.14 Hunaniaeth rywiol

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Hunaniaeth Rywiol | Mae angen rhagor o wybodaeth | Ystyried sut/p'un a ddylid diwallu'r angen |

Mae angen clir ymhlith defnyddwyr data am well gwybodaeth am hunaniaeth rywiol, yn enwedig mewn perthynas â datblygu polisïau, darparu gwasanaethau a chyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae SYG yn cynnwys cwestiwn safon genedlaethol wedi'i chysoni[5] ar hunaniaeth rywiol yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Dim ond ar lefel ranbarthol y gall

[4] *Cyhoeddwyd yr allbynnau ymchwil cyntaf ym mis Hydref 2015 ac maent yn cynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl oedran a rhyw ar lefel awdurdodau lleol:*
*http://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedataresearchoutputs*

[5] *http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/harmonisation/secondary-set-of-harmonised-concepts-and-questions/sexual-identity.pdf*

blwyddyn o ddata arolwg lunio amcangyfrifon cadarn. Gan fod y data cyhoeddedig yn sefydlog dros amser, mae SYG wrthi'n asesu dichonoldeb cyfuno sawl blwyddyn o ddata er mwyn llunio amcangyfrifon manylach ar lefel awdurdodau lleol.

Mae SYG yn bwriadu cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol ym Mhrawf Cyfrifiad 2017. Bydd cynllun y prawf yn golygu y gellir asesu p'un a yw cynnwys cwestiwn ar y pwnc hwn wedi cael effaith ar ymatebion cyffredinol ac y gellir asesu ansawdd yr ymatebion. Y dybiaeth gyfredol yw mai'r cwestiwn hunangwblhau wedi'i safoni a gaiff ei gynnwys ym Mhrawf 2017[6]. Fodd bynnag, cynhelir profion ar y cwestiwn er mwyn adolygu dealltwriaeth y cyhoedd o'r fersiwn hunangwblhau o'r cwestiwn gan nad yw'r fersiwn hon wedi'i phrofi'n llawn nac wedi'i defnyddio mewn arolwg cartref.

Bydd SYG hefyd yn asesu pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd i ofyn cwestiwn ar y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2021.

Mae SYG yn disgwyl y byddai angen diwygio Deddf y Cyfrifiad 1920 er mwyn cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol yn y cyfrifiad. Dyma a ddigwyddodd pan ychwanegwyd cwestiwn ar grefydd yng Nghyfrifiad 2001. Roedd yn rhaid i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi basio deddfwriaeth sylfaenol o'r fath. Roedd aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn pryderu y gellid ystyried bod y cwestiwn ar grefydd yn mynd yn groes i ryddid sifil ymatebwyr felly penderfynwyd y byddai'r cwestiwn yn gwestiwn gwirfoddol; efallai y bydd angen gwneud hyn hefyd ar gyfer unrhyw gwestiwn ar hunaniaeth rywiol.

Caiff yr holl dystiolaeth ei hystyried a gwneir penderfyniad o ran p'un a ddylid cynnwys hunaniaeth rywiol yn y cyfrifiad. Bydd y penderfyniad hwn yn rhan o'r argymhelliad i'r llywodraeth a'r Senedd.

### 3.15 Pwnc newydd: Hunaniaeth o ran rhywedd

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Hunaniaeth o ran rhywedd | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Ystyried p'un a ddylid/sut i ddiwallu'r angen |

Dangosodd defnyddwyr data ofyniad clir am hunaniaeth o ran rhywedd er mwyn datblygu polisïau a chynllunio gwasanaethau; yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd. Roedd hyn yn canolbwyntio ar angen am ddata ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer poblogaeth sy'n cynnwys llai nag un y cant o'r boblogaeth gyffredinol, yn ogystal ag angen i sicrhau bod data ar gael i'w dadansoddi ar y cyd â nodweddion eraill.

Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd fod angen data am unigolion â'r nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir o ran yr union gategorïau allbwn yr oedd eu hangen. Felly, mae angen egluro'r union gysyniadau i'w mesur. Yn ogystal, mae ystyriaethau eraill o ran ansawdd data, pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd a'r baich ar yr ymatebydd yn 'uchel'. Yn dilyn 'Adolygiad Anghydraddoldebau' 2007 Swyddfa'r Cabinet, cyhoeddodd SYG y 'Trans Data Position Paper' yn 2009. Daeth hwn i'r casgliad nad casglu data drwy arolygon cartref yw'r ffordd fwyaf priodol o fodloni'r gofynion hyn.

Fel gyda phwnc hunaniaeth rywiol, mae SYG yn disgwyl y byddai angen diwygio Deddf y Cyfrifiad 1920 er mwyn ychwanegu cwestiwn ar hunaniaeth o ran rhywedd, ac y gallai fod angen cyflwyno'r cwestiwn fel cwestiwn gwirfoddol.

[6] http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/harmonisation/secondary-set-of-harmonised-concepts-and-questions/sexual-identity.pdf

Bydd SYG yn adolygu'r 'Trans Data Position Paper' gan ystyried newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth a'r anawsterau a nodwyd o ran casglu data ar hunaniaeth o ran rhywedd o fewn arolygon cartref gyda'r nod o argymell sut y gellid cynnal rhagor o waith ar hunaniaeth o ran rhywedd, a ph'un a ddylid gwneud hynny.

### 3.16 Pwnc newydd: Cymuned a chyn-filwyr y lluoedd arfog

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Cymuned y lluoedd arfog | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu. Dylid archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol |

Mae angen clir am wybodaeth am gymuned y lluoedd arfog, gan gynnwys cyn-filwyr a dibynyddion, yn enwedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau am gynllunio a darparu gwasanaethau a dyrannu adnoddau er mwyn cyflawni argymhellion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, nid yw'r angen defnyddwyr ar gyfer y pwnc hwn yn ddigon cadarn i roi blaenoriaeth iddo dros bynciau eraill yng Nghyfrifiad 2021. O ganlyniad, nid oes unrhyw gynlluniau i ymgymryd â rhagor o waith mewn perthynas â chwestiwn ar y pwnc hwn yn y cyfrifiad.

Mae Arolwg Blynyddol SYG o'r Boblogaeth yn ddiweddar wedi cynnwys cwestiynau er mwyn casglu gwybodaeth am gyn-filwyr. Rydym yn disgwyl y bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael o'r ffynhonnell hon yn y dyfodol. Yn ogystal, byddwn yn ymchwilio i ddichonoldeb cysylltu ffynonellau gweinyddol, am gyn-filwyr y lluoedd arfog, â data o Gyfrifiad 2021 er mwyn cynhyrchu'r allbynnau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr.

### 3.17 Pwnc newydd: Achyddiaeth

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Man geni | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |
| Enw cyn priodi | Dd/g - pwnc arfaethedig newydd | Peidio â chasglu |

Mae SYG yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyfrifiad o ran ymchwil hanes y teulu. Yn wahanol i eraill sy'n defnyddio data'r cyfrifiad, prif ddiddordeb yr achyddion yw data lefel cofnodion, a gaiff eu rhyddhau i'r cyhoedd ganrif ar ôl pob cyfrifiad. O ganlyniad, ni chaiff cofnodion Cyfrifiad 2021 eu defnyddio gan achyddion presennol, ond maent yn gwneud y ceisiadau hyn er budd haneswyr teulu yn y dyfodol ar ôl 2021.

Mewn demograffeg sylfaenol a chydberthnasau yn y cartref y mae achyddion yn tueddu i ymddiddori fwyaf, a hynny er mwyn eu galluogi i ganfod unigolion a'u cydberthnasau teuluol. Mae pynciau eraill y cyfrifiad yn darparu gwybodaeth gefndir ychwanegol sy'n helpu i gadarnhau eu bod wedi canfod yr aelod cywir o'r teulu.

Un o'r prif themâu a nodwyd gan ymatebion achyddion oedd y cais i gynnwys man geni fel is-bwnc newydd yng Nghyfrifiad 2021 er mwyn galluogi iddynt ganfod yr aelod cywir o'r teulu yn haws. Cafodd gwybodaeth am fan geni ei chasglu ddiwethaf yng Nghyfrifiad 1951.

Nid yw SYG yn bwriadu casglu unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani at ddibenion achyddol yn unig. Cedwir y wybodaeth a gesglir yng Nghyfrifiad 2021 yn gyfrinachol am 100 mlynedd ac wedyn bydd ar gael at ddibenion gwaith ymchwil hanes y teulu.

## 3.18 Seiliau allbwn a chyfrifo

### Sail gyfrifo

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Y farn ddiweddaraf |
|---|---|---|
| Diffiniad o breswylfa arferol | Ni ddylid ei newid | Ni ddylid ei newid |
| Diffiniad o gartref | Ni ddylid ei newid | Ni ddylid ei newid |
| Diffiniad o ymwelydd | Ni ddylid ei newid | Ni ddylid ei newid |
| Diffiniad o breswylydd byrdymor | Ni ddylid ei newid | Ni ddylid ei newid |

Roedd cefnogaeth ar gyfer y farn gychwynnol na ddylai sail gyfrifo Cyfrifiad 2021 gael ei newid yn dilyn Cyfrifiad 2011.  Mae SYG yn bwriadu parhau â'r un sail gyfrifo a ddefnyddiwyd yn 2011.

### Seiliau allbwn

Cytunwyd yn gyffredinol fod seiliau allbwn Cyfrifiad 2011 yn ddigon hyblyg.  Dywedodd ymatebwyr wrthym sut maent yn defnyddio data ar amrywiaeth o seiliau allbwn. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cartrefi neu breswylwyr arferol i gyfrifo cyfraddau ar gyfer dangosyddion a defnyddio poblogaethau gweithleoedd a/neu boblogaethau diwrnod gwaith i ategu'r rhain wrth asesu effaith y farchnad lafur leol ar y boblogaeth a deall y galw am wasanaethau lleol. Mae SYG yn bwriadu parhau i gynhyrchu allbynnau ar yr un seiliau ag ar gyfer 2011.

## 4. Camau nesaf

Bydd SYG yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu cwestiynau a'u profi ar raddfa fach, cyn cwblhau'r fersiwn terfynol o'r holiadur ar gyfer Prawf Cyfrifiad 2017. Prawf sampl rhanedig fydd y prawf mawr hwn (gan gynnwys tua 100,000 o gartrefi) ac un o'r prif nodau fydd asesu effaith cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol ar ymatebion.

Mae tabl 5 yn crynhoi'r cynlluniau ar gyfer yr is-bynciau hynny lle y gall fod angen newid cwestiynau neu gyflwyno cwestiynau newydd.

### Tabl 5 Gweithgareddau datblygu arfaethedig ar gyfer pynciau newydd a phynciau y mae angen eu hadolygu

| Manylion y pwnc | Camau nesaf |
|---|---|
| Statws priodasol | Cyflwynwyd Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 ers Cyfrifiad 2011. Caiff y categorïau ymateb a dyluniad y cwestiwn ar gyfer statws priodasol eu hadolygu a'u diwygio os yn briodol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. |
| Nifer yr ystafelloedd | Bydd SYG yn ystyried sut a ph'un a ddylid diwallu'r angen am wybodaeth am nifer yr ystafelloedd.<br>Ym mis Mawrth 2015, cymeradwyodd y Senedd Orchymyn Rhannu Gwybodaeth er mwyn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu gwybodaeth am briodweddau eiddo, gan gynnwys nifer yr ystafelloedd, gydag Awdurdod Ystadegau'r DU. Bydd SYG yn cynnal gwaith ymchwil gan ddefnyddio'r data hyn a fydd yn ystyried y potensial o ran eu defnyddio fel ffynhonnell wybodaeth amgen am nifer yr ystafelloedd, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a bodloni gofynion ystadegol Ewropeaidd. |
| Grŵp ethnig | Mae SYG yn bwriadu parhau i gasglu gwybodaeth am grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol mewn ffordd gydategol. Bydd SYG yn ystyried p'un a oes digon o angen am gategorïau ymateb ychwanegol yn y cwestiwn grŵp ethnig. Bydd hyn yn ystyried unrhyw gyfleoedd a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gofyn y cwestiynau ar-lein, drwy amrywiaeth o wahanol ddyfeisiau, yn ogystal â'r angen am gysondeb a chymharedd â'r holiadur papur. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried yr effaith ar eraill sy'n defnyddio'r cwestiwn hwn. |
| Addysg | Mae angen gwaith ychwanegol i ystyried yr opsiynau ar gyfer byrhau a symleiddio'r cwestiwn hwn er mwyn lleihau'r baich ar yr ymatebydd a gwella ansawdd ymatebion. Mae SYG yn bwriadu cynnal adolygiad o'r cwestiwn ar gymwysterau, ar y cyd â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. |
| Gweithgarwch economaidd | Bydd SYG yn parhau i gasglu gwybodaeth am weithgarwch economaidd yng Nghyfrifiad 2021. Os bydd angen newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb â chanllawiau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a chydag allbynnau'r Arolwg o'r Llafurlu, caiff y cwestiynau eu hadolygu wrth i ganllawiau wedi'u diweddaru gael eu cyhoeddi ac wrth i newidiadau gael eu hasesu. |
| Statws goruchwylio | Statws goruchwylio yw un o'r is-bynciau a ddefnyddir i gyfrifo NS-SEC, ac fe'i defnyddir yn y dull llawn (a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2001) a'r dull gostyngol (a ddefnyddiwyd yn 2011). Bydd SYG yn ystyried sut i ddiwallu'r angen ar gyfer statws goruchwylio wrth gyfrifo NS-SEC. |

| Manylion y pwnc | Camau nesaf |
|---|---|
| Gwirfoddoli | Ni chasglwyd gwybodaeth am wirfoddoli yn flaenorol fel rhan o'r cyfrifiad. Bydd SYG yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi'r gofynion manwl ar gyfer yr is-bwnc hwn er mwyn llywio'r broses o ddatblygu a phrofi cwestiwn (cwestiynau) er mwyn penderfynu p'un a ydynt yn addas ar gyfer Cyfrifiad 2021. |
| Hunaniaeth rywiol | Mae SYG yn bwriadu cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol ym Mhrawf Cyfrifiad 2017. Bydd cynllun y prawf yn golygu y gellir asesu p'un a yw cynnwys cwestiwn ar y pwnc hwn wedi cael effaith ar ymatebion cyffredinol ac y gellir asesu ansawdd yr ymatebion.<br><br>Bydd SYG hefyd yn asesu pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd i ofyn cwestiwn ar y pwnc hwn yng Nghyfrifiad 2021.<br><br>Mae'n debygol y byddai'n rhaid gwneud unrhyw newid i Ddeddf y Cyfrifiad 1920 er mwyn galluogi cwestiwn ar hunaniaeth rywiol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, fel y digwyddodd pan ychwanegwyd cwestiwn ar grefydd yng Nghyfrifiad 2001.<br><br>Roedd yn rhaid i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi basio deddfwriaeth sylfaenol o'r fath. Roedd aelodau Tŷ'r Arglwyddi yn pryderu y gellid ystyried bod y cwestiwn ar grefydd yn mynd yn groes i ryddid sifil ymatebwyr felly penderfynwyd y byddai'r cwestiwn yn gwestiwn gwirfoddol; efallai y bydd angen gwneud hyn hefyd ar gyfer unrhyw gwestiwn ar hunaniaeth rywiol.<br><br>Caiff yr holl dystiolaeth ei hystyried a gwneir penderfyniad o ran p'un a ddylid cynnwys hunaniaeth rywiol yn y cyfrifiad. Bydd y penderfyniad hwn yn rhan o'r argymhelliad i'r llywodraeth a'r Senedd. |
| Hunaniaeth o ran rhywedd | Mae angen defnyddwyr am ddata am hunaniaeth o ran rhywedd, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau ar gyfer ymyriadau i gefnogi'r gymuned hon, a dyrannu adnoddau ar eu cyfer. Atgyfnerthir angen defnyddwyr am ddata ar y rheini â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Felly, mae SYG yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith canlynol ar hunaniaeth o ran rhywedd:<br><br>• adolygu'r 'Trans Data Position Paper' gan ystyried newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth a'r anawsterau a nodwyd o ran casglu data ar hunaniaeth o ran rhywedd o fewn arolygon cartref<br>• ceisio dysgu gan Asiantaethau Ystadegau Gwladol eraill<br>• gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r gymuned drawsrywiol er mwyn egluro'r data penodol sydd eu hangen ar hunaniaeth o ran rhywedd a'r cysyniadau i'w mesur<br>• nodi opsiynau ar gyfer diwallu angen defnyddwyr am ddata; gan roi sylw penodol i b'un a ydyw'n dderbyniol i'r cyhoedd |

Roedd cwestiynau a gynhwyswyd yn 2011 yn destun rhaglen brofi drylwyr a dengys ein dadansoddiad o ganlyniadau 2011 fod y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn darparu canlyniadau o ansawdd derbyniol. Felly, ar hyn o bryd, nid yw SYG yn bwriadu gwneud newidiadau i'r cwestiynau a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011 ac eithrio'r newidiadau hynny a amlinellir yn nhabl 5.

Fodd bynnag, wrth ystyried y cwestiynau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021, bydd SYG yn ystyried unrhyw gyfleoedd a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chasglu gwybodaeth ar-lein yn bennaf yn ogystal â chan ddefnyddio holiaduron papur.

Mae ymateb ar-lein yn cynnig cyfleoedd i wella ansawdd, lleihau'r baich ar yr ymatebydd a lleihau costau drwy ddefnyddio swyddogaethau hunangodio. Er enghraifft, gellid gwella'r broses o gasglu gwybodaeth am gyfeiriadau ar-lein drwy ddefnyddio swyddogaeth chwilio am gyfeiriad. Dylai hyn helpu ymatebwyr i gwblhau'r holiadur yn haws, gan wella cywirdeb, yn ogystal â lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chofnodi a chodio gwybodaeth am gyfeiriadau.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cwestiynau â nifer fawr o gategorïau ymateb neu 'flychau ticio' yn ymddangos ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Mae'n bwysig sicrhau nad yw'r ffordd y caiff y cwestiwn ei gyflwyno yn dylanwadu ar yr ymateb a ddarperir, oherwydd gallai hyn effeithio ar gymharedd dros amser a chymharedd â ffynonellau data eraill.

Ar ôl y cam datblygu a phrofi, bydd cyfnod o werthuso er mwyn cefnogi'r penderfyniad terfynol o ran unrhyw newidiadau i'r cwestiynau. Bydd y gweithgareddau hyn wedi'u datblygu'n ddigonol i ddarparu cynnig clir ar gyfer holiadur Cyfrifiad 2021 yn y Papur Gwyn ar y Cyfrifiad yn 2018. Caiff penderfyniad terfynol ar y cwestiynau ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Senedd yn 2019.

Mae tabl 6 yn nodi'r amserlen ar gyfer datblygu'r pynciau a'r cwestiynau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 a llunio fersiwn terfynol ohonynt.

### Tabl 6 Amserlen ar gyfer datblygu'r pynciau a'r cwestiynau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 a llunio fersiwn terfynol ohonynt

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| 2016 | Datblygu holiadur Prawf 2017 |
| Gwanwyn 2017 | Bydd SYG yn cynnal prawf ar raddfa fawr yn 2017. Bydd yn cynnwys tua 100,000 o gartrefi gyda dau brif amcan:<br>• profi effaith cynnwys cwestiwn ar hunaniaeth rywiol ar y gyfradd ymateb gyffredinol ac ansawdd yr ymatebion a geir<br>• profi'r gweithdrefnau gweithredol a'r systemau ategol arfaethedig |
| 2017 - 2018 | Gwerthuso canlyniadau Prawf 2017, a chynnal gweithgareddau datblygu pellach os bydd angen |
| Canol 2018 | Papur Gwyn ar y Cyfrifiad - a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer y pynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 |
| Gwanwyn 2019 | Ymarfer y Cyfrifiad - ymarfer ein cynllun ar gyfer Cyfrifiad 2021 a fydd fwy neu lai ar ei ffurf derfynol, gan gynnwys cynnwys cwestiynau a fydd fwy neu lai ar ei ffurf derfynol |
| 2019 | Cymeradwyo holiadur Cyfrifiad 2021 gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. |

## Atodiad A: Canllawiau ar gyfer sgorio pynciau yn erbyn meini prawf gofynion defnyddwyr

Mae'r ystodau sgorio yn llywio'r terfynau sgoriau uchaf ac isaf y gellir eu rhoi i dystiolaeth ym mhob categori. Dyrennir sgôr i is-bynciau o fewn y categori sgorio uchaf y rhoddwyd tystiolaeth gadarn sy'n diffinio gofynion defnyddwyr yn glir ar eu cyfer.

| Maen prawf | Pwysoliad | Canllawiau sgorio | Ystod sgorio |
|---|---|---|---|
| Diben | 3.0 | Llywodraeth ganolog - dyrannu adnoddau neu gynllunio a darparu gwasanaethau neu ofyniad cyfreithiol i gasglu data | 7 - 10 |
| | | Llywodraeth leol - dyrannu adnoddau neu gynllunio a darparu gwasanaethau | 6 - 9 |
| | | Dibenion eraill (gan gynnwys datblygu polisïau a gofynion monitro ac ymchwil) | 1 - 7 |
| | | Dim angen defnyddwyr | 0 |
| Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | 2.0 | Ardal gynnyrch | 9 - 10 |
| | | Ardal gynnyrch ehangach (LSOA/MSOA) | 7 - 8 |
| | | Ward | 5 - 7 |
| | | Awdurdod lleol | 3 - 7 |
| | | Rhanbarth | 1 - 5 |
| | | Gwlad | 0 - 5 |
| | | Arall | 0 - 10 |
| Ffynonellau amgen | 1.5 | Nid oes ffynhonnell amgen yn cael ei defnyddio nac yn debygol o gael ei defnyddio erbyn 2021 | 10 |
| | | Nid oes ffynhonnell amgen yn cael ei defnyddio ond mae'n debygol y bydd ffynhonnell amgen yn cael ei defnyddio erbyn 2021 (ee ffynhonnell newydd, gwella ansawdd data neu negodi mynediad i ddata) | 7 - 8 |
| | | Defnyddir ffynhonnell amgen sy'n diwallu anghenion yn rhannol ac nid yw'n debygol o ddiwallu anghenion yn llawn erbyn 2021 | 4 - 6 |

| Maen prawf | Pwysoliad | Canllawiau sgorio | Ystod sgorio |
|---|---|---|---|
| | | Defnyddir ffynhonnell amgen sy'n diwallu anghenion yn rhannol ond mae'n debygol o ddiwallu anghenion yn llawn erbyn 2021 (ee ychwanegu data newydd, gwella ansawdd data neu negodi mynediad i ddata) | 1 - 3 |
| | | Mae ffynhonnell amgen yn bodoli sy'n diwallu anghenion yn llawn | 0 |
| Dadansoddiad amlamrywedd | 1.5 | Yn aml gydag amrywiaeth eang o is-bynciau eraill y cyfrifiad | 8 - 10 |
| | | Yn achlysurol gydag amrywiaeth eang o is-bynciau eraill y cyfrifiad | 5 - 7 |
| | | Yn aml gydag amrywiaeth gyfyngedig o is-bynciau eraill y cyfrifiad | 4 - 7 |
| | | Yn achlysurol gydag amrywiaeth gyfyngedig o is-bynciau eraill y cyfrifiad | 2 - 3 |
| | | Dim o gwbl | 0 |
| Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | 1.0 | Cymharwyd data Cyfrifiad 2011 â chyfrifiadau blaenorol | 6 - 10 |
| | | Ni chasglwyd data cyn Cyfrifiad 2011 ond caiff data 2021 eu cymharu â data 2011 a/neu cymharwyd â ffynonellau eraill | 7 - 8 |
| | | Ni chasglwyd data yn flaenorol ar gyfrifiad neu nid oes cynlluniau ar gyfer cymharu â data eraill | 0 |
| Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | 1.0 | Pwysig iawn | 8 - 10 |
| | | Pwysig | 5 - 7 |
| | | Eithaf pwysig | 2 - 4 |
| | | Ddim yn bwysig | 0 - 1 |

# Atodiad B: Canlyniadau gwerthuso

## Atodiad B1 - Sgoriau anghenion defnyddwyr - wedi'u trefnu fesul pwnc

| Pwnc | Is-bwnc | Casglwyd yng Nghyfrifiad 2011 | Diben | Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Dadansoddiad amlamrywedd | Ffynonellau amgen | Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Oedran | Do | 10 | 10 | 10 | 5 | 10 | 10 | 92.5 |
| | Rhyw | Do | 10 | 10 | 10 | 5 | 10 | 10 | 92.5 |
| | Statws priodasol | Do | 8 | 7 | 8 | 6 | 8 | 9 | 76.0 |
| | Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol | Do | 10 | 10 | 8 | 8 | 9 | 10 | 93.0 |
| Tai | Math o lety a llety hunangynhwysol | Do | 9 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 82.0 |
| | Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) | Do | 9 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 82.0 |
| | Nifer yr ystafelloedd | Do | 8 | 8 | 7 | 5 | 7 | 8 | 73.0 |
| | Nifer yr ystafelloedd gwely | Do | 8 | 9 | 7 | 6 | 7 | 8 | 76.5 |
| | Math o wres canolog | Do | 7 | 8 | 6 | 7 | 5 | 8 | 69.5 |
| | Nifer y ceir neu'r faniau | Do | 8 | 9 | 6 | 7 | 7 | 9 | 77.5 |
| | Technoleg | Naddo | 7 | 7 | 5 | 4 | 2 | 0 | 50.5 |
| | Perchenogaeth anifeiliaid anwes | Naddo | 5 | 7 | 3 | 6 | 8 | 0 | 50.5 |
| Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | Grŵp ethnig | Do | 9 | 10 | 9 | 8 | 8 | 10 | 90.5 |
| | Hunaniaeth genedlaethol | Do | 7 | 7 | 5 | 8 | 4 | 7 | 65.5 |
| Iaith | Y Gymraeg | Do | 8 | 10 | 9 | 6 | 3 | 9 | 78.5 |
| | Prif ieithoedd a ddefnyddir | Do | 7 | 10 | 8 | 10 | 7 | 8 | 83.0 |
| | Medrusrwydd iaith Saesneg | Do | 7 | 10 | 8 | 10 | 7 | 8 | 83.0 |
| Crefydd | Crefydd | Do | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 80.0 |

| Pwnc | Is-bwnc | Casglwyd yng Nghyfrifiad 2011 | Diben | Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Dadansoddiad amlamrywedd | Ffynonellau amgen | Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mudo | Mudo rhyngwladol hirdymor | Do | 9 | 10 | 9 | 8 | 10 | 9 | 91.5 |
| | Mudo rhyngwladol byrdymor | Do | 7 | 7 | 4 | 8 | 5 | 5 | 63.0 |
| | Mudo mewnol | Do | 9 | 9 | 6 | 5 | 9 | 9 | 79.5 |
| | Dinasyddiaeth | Do | 7 | 7 | 5 | 6 | 9 | 8 | 68.5 |
| | Rheswm dros fudo | Naddo | 8 | 7 | 5 | 5 | 8 | 0 | 61.0 |
| Addysg | Cymwysterau a ddelir | Do | 8 | 8 | 7 | 6 | 8 | 9 | 76.5 |
| Iechyd | Iechyd cyffredinol | Do | 8 | 9 | 9 | 6 | 9 | 9 | 82.5 |
| | Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Do | 9 | 10 | 9 | 6 | 9 | 9 | 87.5 |
| | Iechyd meddwl | Naddo | 7 | 7 | 5 | 5 | 5 | 0 | 55.0 |
| | Cyflyrau iechyd | Naddo | 6 | 7 | 5 | 5 | 5 | 0 | 52.0 |
| | Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd | Naddo | 7 | 5 | 5 | 6 | 3 | 0 | 50.5 |
| Gofalwyr | Y gofal di-dâl a ddarperir | Do | 8 | 8 | 7 | 9 | 8 | 9 | 81.0 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Gweithgarwch economaidd ac oriau a weithiwyd | Do | 9 | 8 | 9 | 6 | 9 | 10 | 84.5 |
| | Galwedigaeth | Do | 8 | 9 | 8 | 6 | 8 | 6 | 77.0 |
| | Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) | Do | 9 | 8 | 9 | 6 | 8 | 8 | 81.5 |
| | Diwydiant | Do | 8 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 79.0 |
| | Statws goruchwylio | Do | 3 | 0 | 2 | 6 | 3 | 0 | 24.0 |
| | Blwyddyn olaf a weithiwyd | Do | 5 | 7 | 6 | 5 | 6 | 4 | 55.5 |
| | Gwirfoddoli | Naddo | 7 | 8 | 6 | 7 | 7 | 0 | 63.5 |

| Pwnc | Is-bwnc | Casglwyd yng Nghyfrifiad 2011 | Diben | Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Dadansoddiad amlamrywedd | Ffynonellau amgen | Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teithio | Dull o deithio i'r gweithle | Do | 9 | 9 | 9 | 6 | 6 | 9 | 82.5 |
| | Cyfeiriad y gweithle | Do | 9 | 9 | 9 | 6 | 5 | 9 | 81.5 |
| | Cyfeiriad y man astudio | Naddo | 7 | 9 | 4 | 6 | 5 | 0 | 59.0 |
| Incwm | Incwm | Naddo | 7 | 10 | 6 | 5 | 7 | 0 | 64.5 |
| Hunaniaeth rywiol | Hunaniaeth rywiol | Naddo | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 0 | 72.0 |
| Pynciau ychwanegol | Hunaniaeth o ran rhywedd | Naddo | 7 | 7 | 7 | 10 | 6 | 0 | 66.5 |
| | Lluoedd arfog | Naddo | 8 | 7 | 7 | 5 | 6 | 0 | 62.0 |
| | Enw cyn priodi/enw blaenorol | Naddo | 1 | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 12.0 |
| | Man geni | Naddo | 2 | 1 | 2 | 4 | 0 | 0 | 17.0 |

## Atodiad B2 - Sgoriau anghenion defnyddwyr - wedi'u trefnu yn ôl sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli

| Pwnc | Is-bwnc | Casglwyd yng Nghyfrifiad 2011 | Diben | Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Dadansoddiad amlamrywedd | Ffynonellau amgen | Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Sgôr gyffredinol wedi'i phwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol | Do | 10 | 10 | 8 | 8 | 9 | 10 | 93.0 |
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Oedran | Do | 10 | 10 | 10 | 5 | 10 | 10 | 92.5 |
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Rhyw | Do | 10 | 10 | 10 | 5 | 10 | 10 | 92.5 |
| Mudo | Mudo rhyngwladol hirdymor | Do | 9 | 10 | 9 | 8 | 10 | 9 | 91.5 |
| Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | Grŵp ethnig | Do | 9 | 10 | 9 | 8 | 8 | 10 | 90.5 |
| Iechyd | Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Do | 9 | 10 | 9 | 6 | 9 | 9 | 87.5 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Gweithgarwch economaidd ac oriau a weithiwyd | Do | 9 | 8 | 9 | 6 | 9 | 10 | 84.5 |
| Iaith | Prif ieithoedd a ddefnyddir | Do | 7 | 10 | 8 | 10 | 7 | 8 | 83.0 |
| Iaith | Medrusrwydd iaith Saesneg | Do | 7 | 10 | 8 | 10 | 7 | 8 | 83.0 |
| Iechyd | Iechyd cyffredinol | Do | 8 | 9 | 9 | 6 | 9 | 9 | 82.5 |
| Teithio | Dull o deithio i'r gweithle | Do | 9 | 9 | 9 | 6 | 6 | 9 | 82.5 |
| Tai | Math o lety a llety hunangynhwysol | Do | 9 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 82.0 |
| Tai | Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) | Do | 9 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 82.0 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC) | Do | 9 | 8 | 9 | 6 | 8 | 8 | 81.5 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teithio | Cyfeiriad y gweithle | Do | 9 | 9 | 9 | 6 | 5 | 9 | 81.5 |
| Gofalwyr | Y gofal di-dâl a ddarperir | Do | 8 | 8 | 7 | 9 | 8 | 9 | 81.0 |
| Crefydd | Crefydd | Do | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 80.0 |
| Mudo | Mudo mewnol | Do | 9 | 9 | 6 | 5 | 9 | 9 | 79.5 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Diwydiant | Do | 8 | 9 | 8 | 6 | 7 | 9 | 79.0 |
| Iaith | Y Gymraeg | Do | 8 | 10 | 9 | 6 | 3 | 9 | 78.5 |
| Tai | Nifer y ceir neu’r faniau | Do | 8 | 9 | 6 | 7 | 7 | 9 | 77.5 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Galwedigaeth | Do | 8 | 9 | 8 | 6 | 8 | 6 | 77.0 |
| Tai | Nifer yr ystafelloedd gwely | Do | 8 | 9 | 7 | 6 | 7 | 8 | 76.5 |
| Addysg | Cymwysterau a ddelir | Do | 8 | 8 | 7 | 6 | 8 | 9 | 76.5 |
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Statws priodasol | Do | 8 | 7 | 8 | 6 | 8 | 9 | 76.0 |
| Tai | Nifer yr ystafelloedd | Do | 8 | 8 | 7 | 5 | 7 | 8 | 73.0 |
| Hunaniaeth rywiol | Hunaniaeth rywiol | Naddo | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 0 | 72.0 |
| Tai | Math o wres canolog | Do | 7 | 8 | 6 | 7 | 5 | 8 | 69.5 |
| Mudo | Dinasyddiaeth | Do | 7 | 7 | 5 | 6 | 9 | 8 | 68.5 |
| Hunaniaeth o ran rhywedd | Hunaniaeth o ran rhywedd | Naddo | 7 | 7 | 7 | 10 | 6 | 0 | 66.5 |
| Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | Hunaniaeth genedlaethol | Do | 7 | 7 | 5 | 8 | 4 | 7 | 65.5 |

| Pwnc | Is-bwnc | Casglwyd yng Nghyfrifiad 2011 | Diben | Ardal ddaearyddol fach neu boblogaethau bach | Dadansoddiad amlamrywedd | Ffynonellau amgen | Cymharedd y tu hwnt i Gymru a Lloegr | Cysondeb â chyfrifiadau blaenorol | Sgôr gyffredinol wedi’i phwysoli |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm | Incwm | Naddo | 7 | 10 | 6 | 5 | 7 | 0 | 64.5 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Gwirfoddoli | Naddo | 7 | 8 | 6 | 7 | 7 | 0 | 63.5 |
| Mudo | Mudo rhyngwladol byrdymor | Do | 7 | 7 | 4 | 8 | 5 | 5 | 63.0 |
| Lluoedd arfog | Lluoedd arfog | Naddo | 8 | 7 | 7 | 5 | 6 | 0 | 62.0 |
| Mudo | Rheswm dros fudo | Naddo | 8 | 7 | 5 | 5 | 8 | 0 | 61.0 |
| Teithio | Cyfeiriad y man astudio | Naddo | 7 | 9 | 4 | 6 | 5 | 0 | 59.0 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Blwyddyn olaf a weithiwyd | Do | 5 | 7 | 6 | 5 | 6 | 4 | 55.5 |
| Iechyd | Iechyd meddwl | Naddo | 7 | 7 | 5 | 5 | 5 | 0 | 55.0 |
| Iechyd | Cyflyrau iechyd | Naddo | 6 | 7 | 5 | 5 | 5 | 0 | 52.0 |
| Tai | Technoleg | Naddo | 7 | 7 | 5 | 4 | 2 | 0 | 50.5 |
| Tai | Perchenogaeth anifeiliaid anwes | Naddo | 5 | 7 | 3 | 6 | 8 | 0 | 50.5 |
| Iechyd | Ffactorau sy’n effeithio ar iechyd | Naddo | 7 | 5 | 5 | 6 | 3 | 0 | 50.5 |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Statws goruchwylio | Do | 3 | 0 | 2 | 6 | 3 | 0 | 24.0 |
| Achyddiaeth | Man geni | Naddo | 2 | 1 | 2 | 4 | 0 | 0 | 17.0 |
| Achyddiaeth | Enw cyn priodi/enw blaenorol | Naddo | 1 | 0 | 2 | 4 | 0 | 0 | 12.0 |

## Atodiad B3 - Ystyriaethau eraill

| Pwnc | Is-bwnc | Effaith ar ansawdd data | Effaith ar ba mor dderbyniol ydyw i’r cyhoedd | Yr effaith ar y baich ar yr ymatebydd | Effaith ar bryderon ariannol | Effaith ar y math o holiadur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Oedran | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Rhyw | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Statws priodasol | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Cydberthnasau rhwng aelodau o’r cartref a chydberthnasau teuluol | Canolig | Isel | Uchel | Uchel | Canolig |
| Tai | Math o lety a llety hunangynhwysol | Isel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Nifer yr ystafelloedd | Uchel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Nifer yr ystafelloedd gwely | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Math o wres canolog | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Nifer y ceir neu’r faniau | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Technoleg | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Perchenogaeth anifeiliaid anwes | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | Grŵp ethnig | Isel | Isel | Canolig | Canolig | Canolig |
| | Hunaniaeth genedlaethol | Isel | Isel | Isel | Canolig | Canolig |
| Iaith | Y Gymraeg | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Prif ieithoedd a ddefnyddir | Isel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Medrusrwydd iaith Saesneg | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| Crefydd | Crefydd | Isel | Isel | Canolig | Isel | Isel |

| Pwnc | Is-bwnc | Effaith ar ansawdd data | Effaith ar ba mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd | Yr effaith ar y baich ar yr ymatebydd | Effaith ar bryderon ariannol | Effaith ar y math o holiadur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mudo | Mudo rhyngwladol hirdymor | Canolig | Isel | Uchel | Canolig | Isel |
| | Mudo rhyngwladol byrdymor | Uchel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Mudo mewnol | Canolig | Isel | Canolig | Uchel | Canolig |
| | Dinasyddiaeth | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Rheswm dros fudo | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| Addysg | Cymwysterau a ddelir | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel |
| Iechyd | Iechyd cyffredinol | Canolig | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Isel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Iechyd meddwl | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Cyflyrau iechyd | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| Gofalwyr | Y gofal di-dâl a ddarperir | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Gweithgarwch economaidd ac oriau a weithiwyd | Canolig | Isel | Uchel | Canolig | Canolig |
| | Galwedigaeth | Uchel | Isel | Uchel | Uchel | Isel |
| | Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) | Pwnc deilliedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Diwydiant | Uchel | Isel | Uchel | Uchel | Isel |
| | Statws goruchwylio | Canolig | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Blwyddyn olaf a weithiwyd | Uchel | Isel | Canolig | Isel | Isel |
| | Gwirfoddoli | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Canolig |

| Pwnc | Is-bwnc | Effaith ar ansawdd data | Effaith ar ba mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd | Yr effaith ar y baich ar yr ymatebydd | Effaith ar bryderon ariannol | Effaith ar y math o holiadur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teithio | Dull o deithio i'r gweithle | Isel | Isel | Isel | Isel | Isel |
| | Cyfeiriad y gweithle | Canolig | Isel | Canolig | Uchel | Isel |
| | Cyfeiriad y man astudio | Uchel | Isel | Canolig | Canolig | Isel |
| Incwm | Incwm | Uchel | Uchel | Uchel | Canolig | Canolig |
| Hunaniaeth rywiol | Hunaniaeth rywiol | Uchel | Uchel | Uchel | Canolig | Isel |
| Pynciau ychwanegol | Hunaniaeth o ran rhywedd | Uchel | Uchel | Uchel | Uchel | Isel |
| | Lluoedd arfog | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Enw cyn priodi/enw blaenorol | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |
| | Man geni | Pwnc newydd arfaethedig - ni chynhaliwyd asesiad | | | | |

## Atodiad B4 - Gofynion gweithredol

| Pwnc | Is-bwnc | Gofyniad gweithredol |
|---|---|---|
| Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | Oedran | Uchaf |
| | Rhyw | Uchaf |
| | Statws priodasol | Isaf |
| | Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol | Uchaf |
| Tai | Math o lety a llety hunangynhwysol | Uchaf |
| | Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu) | Uchaf |
| | Nifer yr ystafelloedd | Cymedrig |
| | Nifer yr ystafelloedd gwely | Cymedrig |
| | Math o wres canolog | Isaf |
| | Nifer y ceir neu'r faniau | Isaf |
| | Technoleg | Dim |
| | Perchenogaeth anifeiliaid anwes | Dim |
| Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | Grŵp ethnig | Uchaf |
| | Hunaniaeth genedlaethol | Isaf |
| Iaith | Y Gymraeg | Isaf |
| | Prif ieithoedd a ddefnyddir | Isaf |
| | Medrusrwydd iaith Saesneg | Isaf |
| Crefydd | Crefydd | Isaf |
| Mudo | Mudo rhyngwladol hirdymor | Isaf |
| | Mudo rhyngwladol byrdymor | Uchaf |
| | Mudo mewnol | Cymedrig |
| | Dinasyddiaeth | Isaf |
| | Rheswm dros fudo | Dim |
| Addysg | Cymwysterau a ddelir | Isaf |
| Iechyd | Iechyd cyffredinol | Isaf |
| | Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Isaf |
| | Iechyd meddwl | Dim |
| | Cyflyrau iechyd | Dim |
| | Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd | Dim |
| Gofalwyr | Y gofal di-dâl a ddarperir | Isaf |

| Topic | Sub-topic | Operational requirement |
|---|---|---|
| Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | Gweithgarwch economaidd ac oriau a weithiwyd | Cymedrig |
| | Galwedigaeth | Cymedrig |
| | Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) | Dim |
| | Diwydiant | Cymedrig |
| | Statws goruchwylio | Cymedrig |
| | Blwyddyn olaf a weithiwyd | Cymedrig |
| | Gwirfoddoli | Dim |
| Teithio | Dull o deithio i'r gweithle | Isaf |
| | Cyfeiriad y gweithle | Cymedrig |
| | Cyfeiriad y man astudio | Dim |
| Incwm | Incwm | Dim |
| Hunaniaeth rywiol | Hunaniaeth rywiol | Dim |
| Pynciau ychwanegol | Hunaniaeth o ran rhywedd | Dim |
| | Lluoedd arfog | Dim |
| | Enw cyn priodi/enw blaenorol | Dim |
| | Man geni | Dim |

RPT 01 TPC(W)